

ECO'R WYDDFA

RHIF 369

MEDI

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Dinorwig '69 - Cofio'r Cau
- Priodas yn Neiniolen
- Glyn Rhonwy - Gosod Llwyfan


LLWYDDIANT AC ANRHYDEDD YN YR EISTEDDFOD

BAND PENTREF YN TRECHU BAND TREF A DINAS



Meirion a Hefin (ysgrifennydd a thrysorydd y band) gyda'r gwpan am ennill yn yr Eisteddfod.

URDDO DAU O'R FRO



Selwyn Ioan, Y Dirprwy Archdderwydd gafodd y fraint o urddo Dei Tomos, y darlledwr i'r Wisg Wen ar y Maen Llog yn y Bala.


Un arall o blant y Waunfawr a urddwyd i'r Wisg Werdd oedd Meira Turner am ei chyfraniad fel adroddwraig a llfarydd yn yr eisteddfodau ar hyd y blynyddoedd.



Roedd dathlu mawr ar ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala eleni wrth i Fand Deiniolen ddod yn fuddugol yng nghystadlwyaeth y bandiau pres adran 2. Band Dinas Caerdydd oedd yn ail a band Y Drenewydd yn drydydd. Canlyniad penigamp felly yn gweld band pentref bach yn trechu band tref a band dinas i ddod i'r brig!

Gweithiodd y band, dan arweiniad Gavin Saynor, yn hynod o galed yn yr wythnosau cyn yr Eisteddfod i sicrhau buddugoliaeth fydd, gobeithio, yn rhoi'r hyder angenrheidiol i'r band wrth iddynt fynd ymlaen i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain yn Harrogate fis Medi.

Hoffai Gavin, sy'n Gyfarwyddwr Gerdd y Band, ddiolch i Wynne Williams, yr arwinydd, am ci holl waith yn paratoi y band tuag at y gystadlwyaeth, ac i Cai Jones, un o chwaraewyr ifanc y band, am ci chwarae bendigedig yn ci unawd ar y corn flugel.



Siôn a Manon, brawd a chwaer a gafodd eu dewis fel aelodau o Fand Pres Ieuencid Cymru yn ddiweddar.

Vchydig wythnosau cyn yr Eisteddfod, cafodd dau aelod ifanc arall o'r band, sef Siôn Elwyn Hughes a Manon Elwyn Hughes, brawd a chwaer o Fethel, brofiad bythgofiadwy wrth iddynt gael eu dewis i fod yn aelodau o Fand Pres Ieuencid Cenedlaethol Cymru -

y trydydd pâr o'r un teulu o Fand Deiniolen i ymuno â'r Band Cenedlaethol! Mae'r Band bellach wedi gweld 11 o aelodau yn cael eu dewis i'r Band Cenedlaethol - sy'n dyst i'r gwaith caled sy'n cael ei wneud gyda'r bobl ifanc sy'n ymaloedi â'r band.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y BALA.

Yn y rhifyn hwn ceir amryw longyfarchion i wahanol unigolion a grwpiau a gafodd eu anrhydeddu neu a ddaeth yn fuddugol mewn gwahanol gystadleuthau. Ymddiheurwn os oes unrhyw rai heb eu crybwyll, ond cofiwch - os na chaiff y rhai sy'n gofalu am y papur wybodaeth, yna allwn ni mo'i gynnwys!

CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO

SEFYDLIAD COFFA
LLANRUG
Nos iau Medi 24ain
am 7:00

Mae angen mwy o wirfoddolwyr. Dewch yn llw.

ECO'R WYDDFA

RHIF 369
MEDI 2009

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAETHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(875384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (850579)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL Medi 20fed

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU Hydref 1af

Byddwch o'ch

SUL Medi 27ain, 5 y p'awn

Sefydliad Goffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Hydref	Sul 20 Medi	Sul 27 Medi	Iau 1 Hydref	Penisarwaen	Ann Evans	872 407

Clythrau

42 Twickenham Gardens
Harrow Weald
Middlesex HA3 6BG

Bws Barbara Gwynedd

A fydddech mor garedig a
chynnwys yr erthygl isod yn y
rhifyn nesaf o'r *Eco*, os gwelwch
yn dda?

Fe lanswyd yr elusen yng
Nghricieth ar 31 Gorffennaf.
Gyrrwr gwirfoddol efo'r elusen
yn Stanmore wyf fi ers dros
bymtheng mlynedd.

Diolch yn fawr.
Yn gywir

JOHN GLYNNE JONES

Gwybodaeth am y Gronfa

Ydych chi, neu rywun rydych
yn ei nabod, wedi treulio
misoedd neu flynyddoedd yn
gaeth i'r tŷ, yn methu mynd
allan neu hyd yn oed yn methu
gweld ymhellach na giât yr
ardd?

Os na allwch ddefnyddio
trenau, bysiau, ceir preifat neu
dacsis arferol, am eich bod yn
gaeth i gadair olwyn, fe allwn ni
helpu. Mae'r gwasanaeth yma'n
arbennig ar gyfer y bobl hynny
sy'n methu symud allan o gadair
i fynd i mewn i gerbyd.

Cafodd Cronfa Bws Barbara
ei chreu i helpu pobl fel chi i
ddechrau mwynhau bywyd
ychydig mwy drwy gael mynd
allan i'r byd mawr i siopa, i weld
ffrindiau neu efallai i fynd i
briodas neu barti un o'ch teulu.
Datblygodd y gronfa fwy na
phedwar deg o flynyddoedd yn
ôl pan ddechreuodd Barbara
Werndly, oedd yn glaf parhaol
yn yr Ysbyty Orthopedig
Genedlaethol Frenhinol,
rannu'r cerbyd arbennig oedd
ganddi gyda phobl eraill oedd
mewn sefyllfa debyg iddi hi.
Tyfodd y gronfa dros y
blynyddoedd ac, erbyn heddiw,
mae'n rhoi gwasanaeth
gwerthfawr iawn i nifer o
ddefnyddwyr bodlon.

Mae'r cynllun yma'n wahanol
i unrhyw gynllun arall am ei fod
yn rhoi'r rhyddid i chi i fynd i
unrhyw le ym Mhrydain am
hyd at wythnos heb ddiwyddu
ar ambiwlans preifat neu dacs
drud. Byddwch yn teithio'n
gyfforddus yn eich cadair olwyn
eich hun mewn cerbyd sydd
wedi'i addasu'n arbennig, sy'n
gallu cario hyd at dri o deithwyr
eraill, yn ychwanegol at y
gyrrwr. Gallwch gael aelod o'ch
teulu, cyfaill neu ofalwr 25-75

oed fel gyrrwr os ydynt wedi
cofrestru gyda'r cydlynnydd.
Neu, os nad oes gennych rywun
i'ch helpu, gallwn ninnau
weithiau gynnig gyrrwr
gwirfoddol i chi ar gyfer y
teithiau byrrach a byddwn yn
codi ffi bychan yn ôl y filltir.

Mae pob gyrrwr sydd wedi
cofrestru, pwy bynnag ydynt,
wedi'u diogelu gan ein yswiriant
cyfun ac mae gan y Gronfa
hefyd ddiogelwch atebolrwydd
cyhoeddus. Nodwch, os
gwelwch yn dda, eich bod chi, y
defnyddiwr, yn gyfrifol am
sicrhau bod eich cadair olwyn
yn addas i'w defnyddio gyda
system ddiogelu pedwar pwynt.
Bydd y cydlynnydd yn esbonio
hyn os oes angen.

Does dim ffi penodol pan
fyddwch yn defnyddio eich
gyrrwr eich hun, ond rydym yn
annog pobl i roi ychydig o arian
i'r gronfa i adlewyrchu eu
gwerthfawrogiad o'u rhyddid
newydd ac, wrth gwrs, o'u
hamgylchiadau personol
newydd. Rydym hefyd yn gofyn
i chi ddychwelyd y cerbyd gyda
thanc yn llawn o danwydd.

Mae croeso i bawb, pa un ai
ydynt yn defnyddio'r
gwasanaeth yn barod ai peidio, i
roi rhodd i'r gronfa hon a
gallwch gael y manylion trwy
gysylltu â David Thomas,
Cydlynnydd, Bws Barbara
Gwynedd, 5 Arvon Terrace,
Cricieth. (Ffôn: 01766 522756).

7 Maes Gogerddan
Penglais Road
Aberystwyth.

Annwyl Olygydd

Carwn ddiolch i barti 'Clychau'r
Grug' ac i'm ffrindiau yn
Llanrug am yr holl gardiau,
anrhegion a galwadau ffôn a
dderbyniais ar achlysur fy
mhen-blwydd arbennig ym mis
Gorffennaf.

Cofion Cynnes at bawb.

NANCY LOVATT

RHODDION

£20: Mrs Persis James, Bryn
Mair, Llanrug; Er cof am Derek
Williams, Bron Eilian, gan
Dilys, Shirley a Delwen; Er cof
am Harry Trefor Lewis,
Awstralia, gan y teulu.

£10: Mrs Nancy Lovatt,
Aberystwyth; Mrs Nance
Hughes, Nia ac Ildid, Wernas,
Waunfawr; Mrs G. Kirkpatrick,
Hafan Elan, Llanrug; Mrs M.
Williams, Minffordd, Llanrug;
Jonathan Richardson a Bethan,
Stad Minffordd, Llanrug; Mrs
June Ward, 4 Maes Padarn,
Llanberis.

£5: Stanley Jones, 60 Dol Elidir,
Llanberis; Alun Evans, 32 New
Street, Deiniolen.

£5: Gwyneth Williams, Llain yr
Ardd, Bethel.

£1: Di-enw, Llanrug

DIOLCH

Wedi hir ymaros rydym wedi cael cadarnhad terfynol fod y cais
i agor fferyllfa yn Llanrug wedi bod yn aflwyddiannus. Hoffem
ddiolch i bawb am y gefnogaeth arbennig a gafwyd

Meddygon a Staff

Meddygfa Waunfawr a Llanberis

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os bydddech yn cysylltu â eiddoedd Age Concern, bydddech yn ymwneud â chymryd rôl penodol o Age Concern Enterprises Ltd.
(AGEnt). Mae AGEnt wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngiad yswiriant.
Mae'r Age Concern uchod yn elusen gytrefol.

BE 'DI HWN?



Bellach mae Siop Bryn Pistyll wedi agor ar ei newydd wedd ac ynddi gellir gweld nifer o greiriau hanesyddol. Beth am alw draw i weld beth sydd yno? Beth am roi cynnig ar ddweud beth yw'r teclyn hanesyddol hwn?

Anfonwch eich atebion i

Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr erbyn dydd Llun Medi 21, 2009. Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad.

Bydd y person efo'r ateb cywir cyntaf 'allan o'r het' yn cael gwobr o docyn £10 i'w wario yng Nghaffi Blas y Waun.

(Llun o'r teclyn gan Gwynndaf Hughes)

GLYN RHONWY – GOSOD LLWYFAN AR GYFER LLWYDDIANT

Mae menter newydd i ryddhau potensial economaidd safle datblygu o bwys yng Ngwynedd wedi cyrraedd pwynt allweddol.

Yn dilyn mabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer safle Glyn Rhonwy ger Llanberis, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cefnogi'r broses o ddatblygu amrediad o gynlluniau cynaliadwy ar gyfer y safle a fydd o fudd i Lanberis a'r gymuned ehangach.

Ers mis Ebrill 2009, mae'r Cyngor a'i gynrychiolwyr wedi bod yn gweithio'n agos gyda nifer o bartïon sydd â diddordeb mewn datblygu rhannau o'r safle. Mae gwaith adfer sylweddol bellach wedi ei gwblhau ar ran isaf safle Glyn Rhonwy. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys ail-raddio tomenni gwastraff, creu mynediad ffordd newydd, a chreu pum llwyfan datblygu yn amrywio rhwng 2,500 metr sgwâr i 6,300 metr sgwâr o ran maint. Mae'r safle bellach yn cynnig cyfanswm o 22,000 metr sgwâr o ofod datblygu o ansawdd.

Dyweddodd Arweinydd Portffolio Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dewi Lewis:

'Gyda chysylltiadau ffordd ardderchog gyda'r A55, safle unigryw a golygfeydd gwych o Eryri, mae Glyn Rhonwy yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer y buddsoddwyr cywir, a'r cyfle i roi hwb economaidd sylweddol i Wynedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

'Tra bod marchnata'r safle dosbarth cyntaf hwn yn parhau yn y camau cynnar, mae'r

ymateb gan nifer o fuddsoddwyr posib yn galonogol dros ben, gyda phrosiectau posib sydd eisoes yn cael eu datblygu yn amrywio o waith cynhyrchu i gysleusterau hamdden o safon, cynlluniau ynni adnewyddol posib, a'r defnydd o rannau uchaf y chwareli ar gyfer defnydd hamdden anffurfiol.

'Mac rhai o'r cynigion hyn bellach yn datblygu'n dda, ac rydym yn obeithiol y byddwn mewn sefyllfa i drosglwyddo perchnogaeth rhannau o'r safle i rai o'r buddsoddwyr erbyn yr hydref.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Trefor Edwards, yr aelod lleol ar gyfer Llanberis:

'Yr allwedd er mwyn rhyddhau potensial Glyn Rhonwy yw adnabod partneriaid o safon sydd â gweledigaeth, cynlluniau manwl ac ymrwymiad i wireddu prosiectau a fydd o fudd i'r gymuned leol.

'Rydym yn ddiolchgar iawn i

DIOLCH GAN SEFYDLIAD Y GALON

Llwyddodd cangen Caernarfon o Sefydliad Prydeinig y Galon i godi dros £5,600 tuag at Apêl Nyrsys Gwynedd a Môn yn ddiweddar trwy gasglu o ddrws i ddrws.

Y gyfrinach yw trefn ac ymroddiad gan lu o wirfoddolwyr, medd y trefnwyr. Meddai Mari Edwards, trefnydd y casgliad o ddrws i ddrws ar ran y gangen, 'Mae'n llwyddiant arbennig. Dyma'r swm mwyaf erioed i ni ei gasglu fel cangen trwy fynd o ddrws i ddrws. Mae gan nifer o'n gwirfoddolwyr eu rhesymau personol dros wirfoddoli – rhai wedi dioddef yn bersonol, ac eraill yn perthyn neu yn ffrind i rai sydd wedi dioddef o glefyd y galon. Roeddwn yn falch iawn o dderbyn cymorth Linda Jones, Llanrug, eleni. Hi fydd yn trefnu y casgliad yn y dyfodol, ac rwy'n gwybod fod y casgliad mewn dwylo da.'

Gall unrhyw un sy'n awyddus



Mari Edwards yn cyfri'r ceiniogau!

i drefnu digwyddiad codi arian neu i wirfoddoli i Sefydliad y Galon gysylltu â Mabon ap Gwynfor ar (01342) 423839 neu anfon llythyr at Sefydliad y Galon, Blwch Post 40, Dolgellau, Gwynedd LL40 9AL.



Jeff St Paul, rheolwr y prosiect ar ran Cyngor Gwynedd; Y Cynghorydd Trefor Edwards, Llanberis; Jill Taylor ac Alan Stott o gwmni Blizzard; Llyr Jones o Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd

Lywodraeth y Cynulliad am ei gefnogaeth a chymorth wrth symud y cynllun pwysig hwn yn ei flaen, a fydd yn ein galluogi i sicrhau buddsoddiad a swyddi ar gyfer y safle er lles yr ardal.'

Un o'r cwmnïau sydd mewn trafodaethau pellach ynglŷn ag ail-leoli yng Nglyn Rhonwy ydy Blizzard Protection System. Gan ddefnyddio proses sydd wedi ei datblygu yn lleol, mae Blizzard wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol am safon eu cynnyrch, ac maent yn gyflenwyr pwysig i Luoedd Arfog yr Unol Daleithiau. Yn

ddiweddar, mae'r cwmni wedi ennill Gwobr y Frenhines am Arloesedd ar gyfer 2009.

Ychwanegodd Derek Ryden, Rheolwr Gyfarwyddwr Blizzard Protection Systems:

'Mae ein busnes wedi tyfu yn gyflym ac angen ehangu ymhellach. Rydym yn gweld Glyn Rhonwy fel safle ardderchog i ehangu ein busnes ac a fydd yn ein galluogi i aros yn yr ardal leol.'

Dylan Griffith
Trefnwyr Ângladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)
ar 871833
Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Personol
24 awr y dydd
Capel Gortfrys Preifet

Hefyd **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrraeddych Mewn Steil- Mewn Cerbyd **Rolls Royce**
AR GYFER PRÏODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)
Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU



Ar Ben Arall y Lein

Mae tri mis wedi mynd heibio ers i Lyn Padarn newid ei liw, neu, i fod yn hollol gywir, mae yn newid ei liw pob yn eildydd o wyrdd i lwyd ac wedyn i las-wyrdd. Beth yw'r rhagolygon fod y claf yn dechrau dod ato'i hun? Wel, yn anffodus does dim llawer o obaith am hynny yn y dyfodol agos, yn ôl pob golwg.

I ddechrau mi gafwyd datganiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd mai problem hollol naturiol oedd y tyfiant algai 'ma. Dŵr Cymru, fel y disgwyl, yn adrodd nad oedd wnelo'r broblem ddim â'u gweithgareddau nhw. Y Cyngor Cefn Gwlad sydd, wrth gwrs, gyda'r oruchwyliaeth o blismona safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, yn hollol ddall a byddar i beth oedd yn digwydd. Yna, yn sydyn, mae'r Asiantaeth a'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cytuno mai gwreiddyn y broblem yw'r ffosffadâu sy'n cael eu harllwys o waith carthffos Llanberis. Mater yw hwn sy'n ddigon syml i'w ddatrys ond, wrth gwrs, fel popeth heddiw mae yn eithriadol o gostus, a dyma pahan, mwyaf tebyg, fod Dŵr Cymru yn dal ati i wadu nad oes a wnelo sefyllfa ddim â'u gweithgareddau nhw.

Un peth sy'n bendant, fodd bynnag, yw'r ffaith os na fydd rhywbeth yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf yna ni fydd dim gobaith i Lyn Padarn na'r Seiont gario 'mlaen fel cartref i'r torgoch, brithyll a'r eog. Sut mae peth fel hyn yn dderbyniol wn i ddim. Llecyn delfrydol yn ardal brydferthaf y wlad, a be sydd yno - dim ond llygredd.

Mae'r Gymdeithas Bysgota, drwy 'Fish Legal', fodd bynnag yn dal i frwydro ac ar 28 Awst bydd arbenigwr o'r Alban yn dod draw i gael golwg ac i'n cynghori ar sut i symud pethau 'mlaen. Adroddaf ymhellach ar hyn yn rhifyn Hydref.

Ar ein dyfroedd eraill mae pethau yn symud ymlaen yn ardderchog. Mae'r Llyfni yn rhoi tipyn o sewin i'r rhai sy'n barod i roi'r oriau i mewn ond, ym mhen y Dyffryn, ar Lyn Nantlle, mae hwyl arbennig gyda'r brithyll brown. Mae'r cychod yno yn brysur, felly rhaid codi'n weddol fore.

Wrth symud i Dywarchen, eto mae pysgota trwm wedi bod yma, yn enwedig ar y dyddiau yn dilyn y stocio misol o frithyll yr Enfys. Mae oddeutu 600 o frithyll brown yn y ddeorfa, ac rwyf ar ddeall y bydd rhyw 200 o'r rhain yn cael ei gollwng i'r llyn yn yr wythnosau nesaf. Y bwriad yw cadw'r gweddill dros y gaeaf, felly erbyn tymor 2010 bydd brithyll brown hyd at y 3 pwys i'w cael. Da de!

Rwy'n cyfarfod gyda swyddogion pysgodfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd ar 14 Medi i gytuno cynllun casglu grawn eog yn ystod diwedd Tachwedd / dechrau Rhagfyr. Ond efallai, gyda'r estyniad i'r tymor eleni yn rhedeg hyd at 30 Tachwedd, y bydd yn bosib gwneud hyn heb lawer o drafferth.

HUW PRICE HUGHES

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

DINORWIG

Miss Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DIOLCH. Dymuna Dilys, Shirley a Delwen, Bron Eilian, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt o golli gŵr a thad annwyl iawn. Diolch yn fawr i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac am eu caredigrwydd. Diolch hefyd i'r Parchedigion Idris Thomas a Gwynfor Williams am eu gwasanaeth. I Dr W. Munro, yr organydd, am ei wasanaeth wrth yr organ. Diolch i Dylan Griffiths am ei drefniadau trylwyr ac urddasol. Diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Bu'r geiriau caredig yn gysur mawr a diolch am y rhoddion hael a gasglwyd tuag at Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd i gael offer anadlu.

DYMUNIADAU GORAU. Gan fod gwyliau'r haf yn tynnu tua'r terfyn, gawn ni ddymuno yn dda i'r plant fydd yn gadael yr ysgol ac yn mynd i'r colegau neu i unrhyw swydd arall ac, wrth gwrs, i'r rhai fydd yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf heb wybod beth sydd o'u blaenau. Llongyfarchiadau i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau. Pob lwc i'r holl blant i'r dyfodol.

Harry Trefor Lewis
1928-2009

Dinorwig - Awstralia

Dymuna teulu y diweddar Harry Trefor Lewis (Bryn Sardis gynt) ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt. Diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn. Cynhaliwyd gwasanaeth er cof am Harry yng Nghapel Sardis ar y nos Fercher cyntaf o Orffennaf gyda'r Canon Idris Thomas, sy'n enedigol o'r ardal, ac hefyd y Parch Dewi Tudur Lewis, nai i Harry. Talwyd teyrnged iddo gan Nellie Wyn Jones, ffrind oes i'r teulu. Diolch hefyd i Lona am ei gwasanaeth wrth yr organ. Mae llawer o sôn wedi bod am safon y canu y noson honno. Diolch am gael noson i'w chofio.

Ganwyd Harry yn Tan y Garret, Dinorwig, yn fab i Joc a Katie Lewis. Mynychodd ysgol Dinorwig tan yr oedd yn bedair ar ddeg oed ac yna aeth i weithio i'r chwarc fel prentis 'stocar' ar un o'r trenau stêm oedd ar y gwahanol bonciau. Pan oedd yn 18 oed bu'n rhaid iddo ymuno â'r fyddin ac, ar ôl dod adref yn ei ôl, dychwelodd i'r chwarc i gwbllhau ei brentisiaeth. Yna fe gafodd injan ei hun a phrentis i'w ddyngu.

Yn fuan wedyn, cyfarfu ag

Elizabeth oedd yn byw, bryd hynny, yn Nhŷ Capel Ebenezer, Deiniolen a bu'r ddau yn canlyn am beth amser. Priodwyd hwy yn 1952 ac aethant i fyw i Bryn Sardis. Yn rhyfedd iawn, yn y tŷ hwn y ganwyd ei fam, Katie, yn 1900. Yn 1955 fe'i etholwyd yn flaenor yng Nghapel Sardis.

Roedd top y chwarel yn dechrau dirywio ac, yn 1959, fe gaewyd y rhan hwnnw o'r gwaith, Cafodd dros wyth deg o ddynion eu diswyddo. Gyda gwaith yn anodd i'w gael, gwelodd hysbyseb yn y papur newydd yn dweud bod angen dynion yn y gwaith alwminiwm yn Nolgarrag a bu'n ffodus i gael gwaith ar ei union. Gweithiai dros dair shift: bore, pnawn a nos, a mynd yno trwy bob math o dywydd yn y gaeaf. Tua chanol haf 1960, daeth awydd ar y teulu i symud i Awstralia i ddechrau bywyd newydd iddynt hwy a'r plant. Gwyneth ac Euros. Ar 18 Tachwedd, gadawsant Gymru a glanio yn Awstralia rhyw ddau ddiwrnod cyn y Nadolig.

'Daeth diwedd cyfnod - ond nid diwedd cof.'

GWELLHAD BUAN. Yn ystod y gwyliau bu raid i Mr Ray Bower, Tan y Marian, fynd i'r ysbyty gan iddo gael ei daro'n wael. Bu yno am rai dyddiau ond, ar ôl triniaeth, cafodd ddod adref. Yna rai dyddiau wedyn cafodd ei wraig, Mrs Betty Bower, ddamwain pan syrthiodd yn Llanberis a thorri ei phenelin, a bu'n raid rhoi ei braich mewn plaster. Dymunwn, fel ardal, adferiad llwyr a buan i'r ddau.

BRYSIWCH WELLA. Drwg gennym ddeall fod Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, hithau ymhell o fod yn dda. Dymunwn wellhad buan iddi hithau. Ar 27 o'r mis fe fu Andrew yn dathlu ei ben-blwydd yn 93 mlwydd oed. Pen-blwydd hapus iawn a gobeithio am well dyddiau i ddod i chi eich dau.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol




Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



O SLAMBAR SELWYN

Sawl gwaith rydw i wedi dweud yn ystod yr hanner canrif diwetha 'ma, 'Dyna'r ora eto'? Cyfeirio rydw i, wrth gwrs, at ein Prifwyl flynyddol, ac fe gawson ni Brifwyl i'w chofio yn y Bala. Mae'n debyg y bydda i yn dweud yr un peth ar ôl Eisteddfod Glyn Ebwy ymhen y flwyddyn - os byw ac iach!

Yn annisgwyl, fe gefais i Eisteddfod wahanol i'r hyn yr oeddwn wedi ei fwriadu ei chael eleni. Mynd i'r Bala ambell ddiwrnod oedd fy mwriad, a hynny oherwydd nad oeddwn wedi llwyr wella ar ôl dwy driniaeth lawfeddygol. Ond, oherwydd gwaeledd yr Archdderwydd Dic yr Hendre, gofynnwyd i mi, fel Dirprwy Archdderwydd, ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Mae yna fwy o ddyletswyddau gan yr Archdderwydd na llywyddu y prif seremoniau. Yn wir, methais â mynd i Lundain ar achlysur dadorchuddio'r Gofeb i Iolo Morganwn ar Fryn y Briallu. Diolch i Gwmni Seren Arian roedd hi'n bosibl i mi fynd i'r Cyhoeddi yn Glyn Ebwy ac fe gawsom groeso arbennig yno. Roedd hi'n cithriadol o boeth a chefais gyngor gan fy meddyg i beidio â gorymdeithio o gwmpas y dre.

Rhaid i mi dalu teyrnged i Gwmni Seren Arian am ei baratoadau ddwy flynedd ymlaen llaw ar gyfer ein Heisteddfodau Cenedlaethol. Mae 'na sawl gwesty yng Nghaerdydd wedi ei sicrhau yn barod ar gyfer Eisteddfod Glyn Ebwy, a gwn bod Elfyn eisoes yn gwneud trefniadau ar gyfer Cyhoeddi Wrecsam tua diwedd Mehefin nesa a'r Eisteddfod yno ymhen dwy flynedd. Mae Seren Arian hefyd yn trefnu bysiau i fynd i'r Wyl Gerdd Dant yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd.

Waeth i mi gyfaddef ddim, roeddwn i'n bur bryderus ynglŷn â chario allan fy nyletswyddau yn y Bala, ond mi gefais i bob cymorth gan Swyddogion yr Eisteddfod ac aelodau Bwrdd yr Orsedd. Am y tro cyntaf mewn hanes fe roddwyd cadair i'r Archdderwydd eistedd arni ar y Maen Llog. Dyna'r tro cyntaf i mi gael y ffrainc o wisgo'r wisg newydd. Ydi, mae hi tipyn ysgafnach na'r llall, ond yn y tywydd tanbaid a gafwyd yn y Bala fe chwysais sawl peint.

Amryw yn gofyn i mi ar ôl y Cadeirio a wyddwn i nad oedd teilyngdod? Roeddwn yn gwybod ychydig oriau cyn y seremoni ond fel yr oeddwn wedi gwneud yn ystod fy nhymor fel Archdderwydd, yr

oeddwn wedi paratoi yn barod - rhag ofn. Dyma'r tro cyntaf i mi gael y profiad o lywyddu seremoni Cadair Wag.

Llawenydd fodd bynnag, oedd cael coroni Ceri Wyn brynhawn dydd Llun. Mae yna lawer o drafod wedi bod eisoes oherwydd i gerdd gaeth gael ei gwobrwyo yng nghystadleuaeth y Goron, a hefyd rhai yn cwyno am fod Ceri Wyn yn un o feirniaid y Gadair. Gallaf eich sicrhau na thorrodd Ceri Wyn yr un rheol a gall gysgu'n dawel hefo'r goron ar ei ben os dymuna. Mae hyn yn fy atgoffa i Elfed, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, pan oedd o yn Drefnydd Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy 1989, ofyn i mi oedd gen i awydd cynnig am y goron yn Llanrwst.

'Fedra i ddim,' atebais, 'rydw i ar banel y beirniaid adrodd.' 'Mae'r rheol honno wedi ei chwalu ers tro,' oedd ateb y Trefnydd. Felly hefo gwybodaeth o lygad y ffynnon gan Elfed a thipyn go lew o lwc, fe gefais y ffrainc o wisgo'r Goron Genedlaethol ugain mlynedd yn ôl, Bobol, tydi amser yn ffluo!

Yn Eisteddfod Gwaun Gynfi yn 1996 mi gefais y ffrainc o ddyfarnu Tlws yr Ifanc i eneth ifanc o'r enw Siân Melangell. Ac yn Eisteddfod y Bala eleni mi gefais y ffrainc o arwisgo yr un Siân - erbyn hyn yn Siân Melangell Dafydd, â Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol. Ydi, mae'n beirdd a'n llenorion ni yn ogystal â'n cantorion a'n adroddwyd yn ddyledus iawn i'r Eisteddfodau lleol.

O do, mi wnes i fwynha'r Steddod ac rwy'n dal i ddeud 'Yr ora eto', ond rhaid i mi gyfadde hefyd fy mod i'n teimlo'r straen erbyn y diwedd, ac fe roddais ochenaid o ryddhad wrth ganu'r anthem ar ddiwedd Seremoni'r Gadair Wag.

Diolch i nifer ohonoch am

eich dymuniadau da cyn y Steddod ac am eich geiriau caredig yn ystod ar ar ôl yr Wyl. A diolch hefyd i'r cyfryngau am y llonydd a gefais ganddynt yn ystod yr wythnos.

Oedd, roedd hi'n wythnos anodd o dan yr amgylchiadau.

O fewn ychydig ddyddiau ar ôl yr Eisteddfod fe gollodd Dic y dydd ac fe gafwyd sawl teyrnged haeddiannol iddo. Er iddo'n gadael fe erys ffrwyth ei awen

gyda ni a diolch iddo am ddefnyddio'r ddawn a roddwyd iddo i greu campweithiau fel y ddwy awdl, 'Y Cynhaef' a 'Gwanwyn'. Braint i mi oedd cael ei orseddu yn Archdderwydd Cymru a chael y mwynhad o'i gwmni yn y ddwy eisteddfod olaf iddo eu mynychu.

Cymeriad hoffus a hwyliog, bardd gwlad a gwir Brifardd y genedl. Diolchwn amdano.

Heddwch i'w lwch.

UN FUNUD FACH

TRUGARHAU

Un o benderfyniadau mwyaf dadleuol yr haf oedd hwnnw a wnaed gan Kenny MacAskill, Ysgrifennydd Cyfiawnder Llywodraeth yr Alban, i ryddhau Abdelbaset Ali Mohamed al-Megrahi, y gŵr o Libya a garcharwyd am osod y bom ar yr awyren a ffrwydrodd uwchben tref Lockerbie ym mis Rhagfyr 1988. Cafodd al-Megrahi ei ryddhau ar sail trugaredd am ei fod yn dioddef o afiechyd cancr terfynol. Roedd llawer yn anghytuno â'r penderfyniad i'w ryddhau, a gwnaed pethau'n waeth yn eu golwg gan y croeso cyhoeddus a gafodd wrth ddychwelyd i'w famwlad.

Mae'r mater yn gymhleth, a chafwyd trafod brwd ar y penderfyniad a'r rhesymau drosto ers iddo gael ei wneud. Ond un peth sy'n sicr yw bod y cyfan yn unol â Chyfraith yr Alban, sy'n caniatáu i garcharorion gael eu rhyddhau os bernir nad ocs ganddynt lawer mwy na thri mis i'w fyw oherwydd afiechyd terfynol. Ac mae rhywbeth gwâr iawn am gyfraith felly, ac am allu pobl i drin eraill yn well nag y cawsant hwy eu trin gan y bobl hynny. Doedd a wnelo rhyddhau al-Megrahi ddim â'r ffaith fod yna lawer yn amau ai ef oedd yn gyfrifol am y bomio o gwbl. Ar un ystyr, mae'r ffaith ei fod wedi

mynd adref yn dal yn euog yng ngolwg y gyfraith yn cadarnhau gwarineb y gyfraith honno sy'n gallu dangos trugaredd at droseddwr. Fe gafodd y gŵr hwn ei brofi mewn llys barn a'i ddyfarnu'n euog; ond yn ei wendid a'i waeledd olaf, mae'r gyfraith yn medru dangos trugaredd at droseddwr a gelyn.

Wrth gwrs fod yna wleidyddiaeth yn rhan o'r penderfyniad hwn. Dim ond ffŵl fyddai'n gwadu hynny o gofio fod a wnelo gwleidyddiaeth ryngwladol â'r drosedd erchyll wreiddiol pan laddwyd 270 o bobl gan y ffrwydrad. Ond beth bynnag y wleidyddiaeth, mae'r ffaith yn aros fod y gyfraith yn y fan hon yn galluogi pobl i drin troseddwr mewn ffordd waraidd. Ddylid ddim anghofio nad al-Megrahi yw'r unig droseddwr o bell ffordd i gael ei ryddhau ar sail trugaredd o garcharau'r Alban eleni, fel pob blwyddyn arall ers pasio'r ddeddf arbennig hon yn 1993.

Mae'r gallu a'r parodrwydd i ddangos trugaredd hyd yn oed at y rhai a wnaeth ddrwg i ni yn sicr yn gydnaws â meddwl yr Arglwydd Iesu. Dyma'r un a fu farw dros ei clynion ac a ddysgodd i'w ddisgyblion yr angen i wneud daioni i'r rhai sy'n gwneud drwg iddynt, a charu'r rhai sy'n eu casáu. Wrth ganmol ac edmygu dewrder Kenny MacAskill, cawn ein herio i weithredu yn yr un ysbryd at bawb a deimlwn sy'n ddraenen mewn unrhyw ffordd yn ein hystlys ninnau.

JOHN PRITCHARD

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser - Ancuryn Jones a'r staff

Mae'n rhaid i mi starad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

CHWILOTA

PWY OEDD...?



PWY OEDD.....?

Soniais o'r blaen yn y golofn hon am yr angen i greu brograffiadur. Hynny yw, bywgraffiadur o bobl a fu'n byw neu a anwyd o fewn y fro ond na ddaeth i enwogrwydd cenedlaethol. Eto i gyd, yn haeddu cael eu cofnodi fel rhywrai a 'wnaeth eu marc' mewn gwahanol feysydd o fewn eu bro neu eu rhanbarth. Ac yn wahanol i'r Bywgraffiadur Cymreig, fod angen rhoi pwyslais ar bob maes, ac nid ar feirdd a phregethwyr yn unig!

William Surdival

Dyma ychwanegu at y rhestr y mis hwn felly, a hynny mewn ymateb i gais yn y rhifyn diwethaf ynglŷn â gweinidog o'r America yn dychwelyd i fro ei febyd, sef y Parch W. Surdival. A chlywaf chi'n dweud yn barod - pregethwr arall yn cael ei ychwanegu ar restr enwogion lleol! Ond mae gyrfa hwn dipyn yn wahanol i rai eraill, ac fe adawaf i chwi benderfynu a yw'n haeddu cael ei gynnwys yn y rhestr enwogion, ac a ydyw yn lleol go iawn.

Gan Arvon Roberts, Pwllheli, y daeth y wybodaeth amdano, ac mae unwaith yn rhagor wedi dangos ei arbenigedd ynglŷn â hanes Cymry a ymfudodd i'r America. Llawer o ddiolch am y wybodaeth gynhwysfawr.

Er mai yn nhref Caernarfon y ganwyd William Surdival, yn fachgen ieuanc daeth i weithio i felin lechi ysgrifennu Samuel Jones yng Nglandinorwig. Oddi yno, penderfynodd ddilyn ei frawd i'r America, a gweithio am gyfnod yn chwareli llechi Slatington a Bangor, Pennsylvania. Bu'n gweithio'n ddiweddardach ar arolwg rheilffyrdd, ac mewn pwell glo yn Wilkes Barre. Yno, cyfarfu â

damwain, a gadawodd y gwaith i fynd yn fyfyrwr i Goleg Busnes Wilkes Barre cyn dilyn cwrs diwinyddol a chael ei ordeinio yn weinidog gyda'r Annibynwyr Cymraeg. Yno hefyd y priododd, ac y ganwyd iddynt bump o blant.

Aeth yn ddiweddarach yn weinidog ar Eglwys Annibynnol Gymraeg South Side, Pittsburgh, ble bu'n gwasanaethu am ddeng mlynedd. Sefydlodd

ddosbarthiadau nos lle dysgwyd pynciau fel llaw-fer, teipio a gwaith cyfrifydd. Oherwydd gwaeledd, symudodd i Gomer, Ohio, a bu yno am naw mlynedd. Bu'n gweinidogaethu hefyd yn Lexington, Ottawa, Middlepoint ac Ashland, i gyd yn Ohio. Bu'n llywydd enwad yr Annibynwyr ar sawl achlysur.

Pan ymddeolodd T. Cynonfardd Edwards fel archdderwydd gorseddigion eisteddfod America, William Surdival a'i dilynodd, ond oherwydd afiechyd, byr fu ei gyfnod yn y swydd honno.

Bu farw ei briod yn 1936 ac ail-briododd yntau â nyrs o Rochester, Efrog Newydd.

Yn ystod 1909 daeth ar ei unig ymweliad â Chymru ers iddo ymfudo, a dyna pam y dychwelodd i Ebenezer i bregethu. Ond roedd brawd iddo yn byw yno hefyd, sef John James Surdival. Bu yntau am gyfnod yn gweithio yn y chwareli a'r mwyngloddiau yn Slatington a Wilkes Barre, ond dychwelodd i Lundain ar ôl cael swydd gyda chwmni yswiriant Pearl. Yn ddiweddarach, cafodd ei ddyrchafu yn Brif Arolygwr dros ogledd Cymru gyda'r cwmni hwnnw.

Bu farw William Surdival yn



Ashland, Ohio yn 83 mlwydd oed ar 23 ain o fis Gorffennaf 1943 a'i gladdu ym mynwent Tawelfan, Gomer.

Hyd yma, gwybodaeth gan Arvon Roberts. Mae'r cysylltiad lleol yn ymddangos yn bur denau, felly euthum ati i chwilio hanes y teulu cyn i William ddod i Ebenezer.

James ac Elizabeth Surdival oedd y rhieni. Yn ôl y gwahanol gyfrifiadau, roedd James wedi ei eni naill ai yn Iwerddon neu ym Manceinion, ond un o Feirion oedd y fam. Yn 1849-50 roeddent yn byw yn Ebenezer, ond wedi symud i Fangor erbyn 1851. Crydd oedd James wrth ei alwedigaeth. Ym Mangor, roedd ganddynt un plentyn, William, a anwyd yn Llanbabo, Sir Gaernarfon! Dyma enghraifft gynnar o'r enw yn cael ei ddefnyddio am ardal Ebenezer. Ganwyd mab arall yn 1852, sef John, ond bu farw'n ddwyflydd oed yn 1854, a William yn 8 oed yn 1858. Erbyn hyn roeddent wedi symud i Moriah Square, Caernarfon. Roedd ganddynt yn ôl cyfrifiad 1861ddau o blant ifanc; Mary Ellen a William (yr ail). Yn 1864 bu farw'r fam yn 39 oed, a hynny ar enedigaeth John, a bu'n rhaid i'r plant gael eu magu yn y Wyrwys yng Nghaernarfon. Yno mae William a John yn 1871, ond Mary erbyn hyn yn forwyn yn

Uxbridge Street.

Yn ystod y degawd nesaf ymfudodd John i'r America a daeth William i Ebenezer. Yn 1881 roedd yn lletya gyda Hugh a Mary Hughes yn Stryd Fawr, Ebenezer.

Felly, prin yw cysylltiad William â'r ardal, ond mae'n amlwg i John (James) Surdival ddychwelyd i'r fro tra'n gweithio i gwmni yswiriant Pearl. Tybed beth fu ei hanes o?

Hugh Lewis

Gŵr a fu'n amlwg yng ngweinyddiad yswiriant cenedlaethol a rheoliadau meddygol yn Sir Gaernarfon. Roedd yn enedigol o Lanberis, ond pan fu farw ei dad, symudodd y teulu i Fangor. Cafodd swydd clerc gyda chyfreithwyr yno cyn symud i Nuneaton, ac yna dychwelyd i Gaernarfon yn 1913 yn glerc Pwyllgor Yswiriant Sir Gaernarfon. Daliodd y swydd honno hyd ei farw yn 1945, yn 69 oed. Gweithredai hefyd fel Ysgrifennydd Panel Sir Gaernarfon, ysgrifennydd mygedol Pwyllgor Meddygol Rhyfel Lleol Sir Gaernarfon, ac ysgrifennydd mygedol Pwyllgor Nyrsio Sir Gaernarfon. Yr oedd hefyd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Pwyllgorau Yswiriant Cymreig a Chyngor Cenedlaethol Whitley ar gyfer gwasanaeth gweinyddu yswiriant.

Cerddoriaeth oedd ei brif ddiddordeb, ac yr oedd yn unawdydd poblogaidd ac aelod o Gymdeithas Gorawl Caernarfon.

Dyn y Moto-beics


Fu gen i erioed, a does gen i ddim diddordeb mewn pethau mecanyddol. Mi fedraf ddygymod â gërs beic, ond mae peirianwaith beics modur a cheir y tu hwnt i mi - a does gen i ddim eisiau gwybod dim amdanynt 'chwaith! Does ryfedd felly na chlywais am ŵr lleol a fu'n amlwg ym myd rasio moto-beics, sef Allen Searell

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Jones, genedigol o'r Waunfawr, ond â chysylltiadau ag ardal Llanberis a Nant Peris.

Colofn Arthur Thomas yn Y Cymro ddiwedd fis Mai ddaeth â'r gŵr hwn i sylw. Holi roedd am fwy o wybodaeth amdano, ac am ei hanes yn rasio ar Ynys Manaw yn 1912 ac 1913. Roedd hefyd yn cadw siop moto-beics yng Nghaernarfon, ond yn byw rhwng Llanrug a'r Waunfawr, gyda chytiau yn llawn o hen foto-beics a thrugareddau eraill.

Bu'n 'dispatch rider' yn ystod y Rhyfel Mawr, a chyhoeddwyd adroddiad yn y wasg leol am ei farwolaeth, ond bu fyw drwy'r drin, a dychwelyd i fro ei febyd.

Mae aelodau o'r teulu'n parhau i fyw'n lleol, felly dyma apêl am fwy o wybodaeth am un arall sy'n sicr yn haeddu lle yn y brograffiadur.

Os gwyddoch chi am unrhyw unigolyn o'r fro sydd yn haeddu lle yn 'oriel yr anfarwoliaeth' lleol, yna rhwng wybod - a gorau oll os ydynt wedi gwneud eu marc mewn meysydd go ddieithr.

Simdda Sion

Daeth cais gan ddarlennydd am wybodaeth ynglŷn â lleoliad Simdda Sion, rhywle ar lethrau'r Wyddfa. Ac yn annisgwyl, cefais ei lleoliad yn dilyn Ras Elidir ddiwedd Awst, a hynny gan rai o ffyddloniaid y Treialon Cŵn Defaid yn Nant Peris. Mwy amdani yn y rhifyn nesaf.

Ymweliad wythnos â Llanberis

Gan Arwyn Roberts o Lanrug y cefais fenthg llyfr trwchus yn adrodd hanes ymweliad â Llanberis yn 1912. Mae cryn waith darllen arno, a llawer o luniau a chardiau post wedi eu glynu o'i fewn. Bydd adroddiad llawn arno yn rhifyn y mis nesaf, gan gynnwys rhestr o blanhigion a ddarganfuwyd yn tyfu mewn corstir yn yr ardal.

Bryn Glas a'r groes gerrig

Mwy o wybodaeth am yr hen dŷ hwn yn Nant Peris, ond mae angen amser i ymweld. Unwaith eto, gobeithiaf roi adroddiad llawnach yn ystod y misoedd nesaf.

Cofio'r Cau

Mae'n anodd credu fod dwy genhedlaeth yn byw o fewn ein bro bellach nad ydynt yn cofio'r chwarel yn gweithio. Bu wythnos y cofio yn hynod llwyddiannus. Mae adroddiad wedi ei gynnwys yn y rhifyn hwn. Cefais innau'r fraint o arwain dwy daith gerdded drwy'r chwarel yn ystod wythnos y cofio, ac rwy'n hynod ddiolchgar i staff yr amgueddfa am gael bod yn rhan o'r cofio.

A dyna'r cyfan am y tro. Cofiwch anfon unrhyw ymholiad neu wybodaeth am agweddau o hanes y fro at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515

AI PARADWYS FFŴL OEDD PATAGONIA?

Gyda Patagonia'n cael lle cynnes yn ein calonnau ni'r Cymry heddiw, mae dwy gyfrol newydd wedi eu cyhoeddi sy'n edrych ar hanes sefydlu'r Wladfa - y naill trwy gyfrwng llythyrau a'r llall trwy gyfrwng darlithoedd.

Mae *Llythyrau'r Wladfa 1865-1945* a *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig*, Gwasg Carreg Gwalch, yn cynnig cofnod gwerthfawr o'r ymdrech galed, a thorcalonnus ar brydiau, i sefydlu'r Wladfa.

Casgliad o ddarlithoedd gan rai o ysgolheigion amlycaf Cymru a geir yn *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig*. Wedi'i olygu gan Dr E. Wyn James a Dr Bill Jones, y ddau yn ddarlithwyr ym Mhrifysgol Caerdydd, ceir yma gasgliad amhrisiadwy o flynyddoedd o waith ymchwil ar fywyd Michael D. Jones a'i gyfraniad allweddol wrth sefydlu'r Wladfa.

Yn ei chyfrol *Llythyrau'r Wladfa 1865-1945*, llythyrau personol rhwng Cymry a Gwladfawyr, a llythyrau o'r wasg yn ystod y cyfnod, sy'n mynd â bryd y golygydd, yr actores a'r nofelydd Mari Emlyn, gan roi gwedd fwy personol i'r hanes.

Yn ôl Mari: 'Yr unig ffordd oedd gan bobl Patagonia a Chymru o gadw mewn cysylltiad oedd trwy lythyr, ac mi oeddwn yn eu gweld yn gofnod archifol - mae yna hanes yn y llythyrau yma, ac mi fyddai'n bechod iddyn nhw fynd ar goll. Mi ges i dros 500 o lythyrau ar fenthg i'w darllen. Mae hiwmor yn beth prin yn y llythyrau cynnar a hynny'n adlewyrchu'r caledi roedden nhw'n ei wynebu wrth geisio sefydlu gwladfa newydd - mae sôn am brofedigaethau a newyn.

'Roedd un llythyr dirdynnol iawn yn disgrifio mewn manylder lofruddiaeth Llwyd

ab Iwan, sef mab Michael D. Jones, gafodd ei ladd gan ddau o wylliaid America. Roedd y bachgen ifanc hwn oedd yn ysgrifennu at ei rieni adref yng Nghapel Garmon yn dyst i'r lofruddiaeth, ac yn ei disgrifio fel golygfa erchyll o ffilm gowboi.

'Mae 'na lythyr diddorol hefyd, un o'r rhai cyntaf un, a ysgrifennwyd gan ddyn o'r enw William Jones o'r Bala sy'n cyfeirio at y ffaith iddo golli ei ddwy ferch fach - un wedi iddyn nhw gyrraedd Porth Madryn a'r llall ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, a sut na fyddai byth wedi gadael y Bala pe byddai'n gwybod am y caledi oedd yn eu hwynebu.'

Ond dilyn hanes 'Tad y Wladfa' neu Michael D. Jones, un o'r sylfaenwyr, a wneir yn y gyfrol *Michael D. Jones a'i Wladfa Gymreig*. Ceir amrywiaeth o safbwyntiau a dehongliadau yn y gyfrol, o'i waith i rai o brif achlysuron ei fywyd.

Eglura Dr Bill Jones ymhellach,

'Cyfrol ar Michael D. Jones ydi hon, yn hytrach na'r Wladfa ond, wrth gwrs, mi oedd sefydlu'r Wladfa yn rhan ganolog o'i hanes. Yn ogystal â rhoi cyflwyniad i wahanol agweddau o'i fywyd a'i waith, mi ydym ni hefyd yn y gyfrol yn edrych ar gefndir a hanes sefydlu'r Wladfa, y ddadleuon o'i phlaid ac yn ei herbyn, a'i lle yn hanes ymfudo'r Cymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

'Fe fu Michael D. Jones yn ddylanwad pwysig eithriadol ar bobl megis Emrys ap Iwan ac O.M. Edwards yn y cyfnod. Ond roedd hefyd yn ffigur dadleuol a dadleugar, sydd wedi'i esgeuluso braidd o'i gymharu â ffigurau eraill yn hanes y mudiad cenedlaethol ac mae'r gyfrol hon yn ymgais i wneud iawn am yr esgeulustod hwnnw.'



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

neu

ebost: williamsgw@parliament.uk

Gefnogwch ein Hysbysebwy

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CANLYNIADAU LEFEL A. Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Llyngele, ar ei chanlyniadau mis Awst. Bydd hi'n astudio Troseddeg / Criminology ym Mhrifysgol Bangor. Hefyd i Caio Iwan, Carrog, sydd am fynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Hanes a Hanes Cymru.

DROS OED YR ADDEWID. Llongyfarchiadau mawr i Leti Williams, Refail a Doreen Moore, Eryl Cottage, ar ddathlu penblwyddi arbennig yn 80 oed yn ddiweddar. Beth sydd yngly^n â garddio sy'n cadw pobol yn heini?

OED YR ADDEWID. Llongyfarchiadau i Dilys Griffiths, Delfryn, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ystod yr haf.

OED Y PAS BWS. Llongyfarchiadau i Alun Roberts, Monfa, ar ei ben-blwydd yn 60 oed. Cyfle i ddarganfod beth yw'r bysys sy'n pasio o flaen y tŷ. Ond bydd gan Clive James, Hafan, hefyd y fraint o deithio ar y bysys yn rhad ac am ddim o hyn ymlaen.

Gobeithio y cawsoch eich dau amser i'w gofio ac y byddwch yn mwynhau oes yr henaint aur. PÊL-DROED.

Llongyfarchiadau i Hywel Jones, Erw Wen ac ennill tarian Clwb Pêl-droed y Felinheli am fod yn chwaraewr y flwyddyn o dan 12 oed. Yr enillydd dan 16 oed oedd Celt Iwan, Carrog, Rhosbach.

E I S T E D D F O D GENEDLAETHOL Y BALA. Llongyfarchiadau i Betsan Ceiriog, Erw Wen, ar ennill y drydedd gwobr yn yr Unawd o dan 12 oed. Mae'n amlwg fod mynychu eisteddfodau lleol wedi arwain at lwyddiant mawr. CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Y Ganolfan, Waunfawr ar nos Fercher, 29 Gorffennaf.

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo cais cynllunio ar gyfer defnydd o adeilad anghyfreithlon fel ystafell chwaraeon, lolfâ, derbynfa a storfa yn gysylltiedig ag unedau gwyliau cyfochrog, a defnydd o ran o'r llawr gwaed fel modurdy yn gysylltiedig â'r

eiddo preswyl gyferbyn â Tyddyn Whisgyn.

CAPEL Y GYMUNED. O'r 1af o Fedi, bydd Capel Caeathro yn rhan o Ofalaeth Glannau Seiont ac yn croesawu'r Parchedig Marcus Wyn Robinson fel ein gweinidog.

Gweithgareddau'r Capel dros y mis nesaf:

Dydd Iau, 3 Medi am 7.30

Cyfarfod Swyddogion

Dydd Sul, 6 Medi

11.00: Ysgol Sul

2.00: Parch Ronald

Williams

13: 11.00: Ysgol Sul

20: 11.00: Ysgol Sul

2.00: Parch Huw Dylan

27: 11.00: Ysgol Sul

Nos Iau, 1 Hydref am 7.00

Gwasanaeth Sefydlu'r

Gweinidog

CYMDEITHAS CAE

CHWARAE. Enillwyr Tynfa Misol mis Awst oedd:

£40: (69) Chloe, 12 Tai Glangwna; £25: (91) Nia Hughes, Rhyddallt Ganol; £15: (80) Mark a Linda, Tŷ Newydd; £5: (27) Guto Jones, Tremallt.

Bydd y Cyfarfod Blynnyddol yn cael ei gynnal am 8.15 yr hwyr, nos Lun, 21 Medi yn Nhafarn Bryngwna. Croeso i bawb.

WEDI GWELLA. Mae Olga Evison, Cae Hopcyn, wedi gwella ar ôl ei damwain ychydig yn ôl.

ARLUNIO I BAWB. Unwaith eto, bydd Mari Rose Cefai-Pritchard yn arwain cwrs arlunio yng Nghanolfan y Capel o dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA). Cynhelir y cwrs ar foreau Mercher rhwng 10.00 ac 1.00, o 16 Medi ymlaen. Am fanylion pellach cysylltwch â Mari Rose ar (01286) 673835 neu'r Gymdeithas ar (01766) 515298.

CYMRAEG I RIENI (Welsh for Parents). Cwrs newydd eleni yng Nghanolfan y Capel ar brynhawniau Mercher rhwng 1.15 a 3.15 yw cwrs ar gyfer rhieni di-Gymraeg. Y tiwtor fydd Gwynne Wheldon Evans. Ydach chi'n nabod rhywun yn yr ardal a fyddai'n elwa trwy fynychu'r cwrs? Ceir manylion trwy ffonio (01766) 515298.

TAFARN BRYN WGNA.

Roedd dydd Mercher, 18 Awst 2009, yn ddiwrnod pwysig yn hanes tafarn Bryngwna. Ar ôl dwy flynedd a hanner mae Derec a Michelle Roberts wedi symud ymlaen. Diolch yn fawr iddynt am gefnogi'r gymdeithas yma yng Nghaeathro, e.e. trwy noddi digwyddiadau plant adeg Nadolig a chaniatau defnydd o'r maes parcio adeg digwyddiadau mawr yng Nghanolfan y Capel.

Erbyn rŵan Bethan Jones o

Benisarwaun yw'r bos! Edrychwn ymlaen at bennod newydd wahanol (gerddorol, efallai) yn hanes yr olaf o'r tair tafarn a fu unwaith yng Nghaeathro. (Beth yw'r cysylltiad rhwng tafarn y 'Cross Keys' gynt a thafarn Bryngwna heddiw?)

Dymunwn bob llwyddiant i Bethan a'i chriw a gofynnwn i'r gymuned ei chefnogi 'Use it or loose it,' chwedl y Sais!

ANTUR YN LAWNSIO PILOT AILDDEFNYDDIO DILLAD

Mae Antur Waunfawr, a sefydlwyd 25 mlynedd yn ôl, yn gwmni elusennol cymunedol sy'n rhoi cyfleoedd gwaith ac yn cefnogi pobl gydag anableddau dysgu yn y gymuned.

Ar yr 22ain o Fedi, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, mae'r Antur yn dechrau cynllun peilot i gasglu dillad a defnyddiau o dai yn ardal Waunfawr a Caeathro. Drwy ddechrau casglu dillad a defnyddiau o'r ochr pafin, bwriad yr Antur fydd cynnig gwasanaeth tebyg i gynllun ailgylchu blychau glas Cyngor Gwynedd. Mi fydd fan yr Antur yn mynd o gwmpas ein hardal yn rheolaidd i gasglu dillad gan y cyhoedd.

Bydd y dillad sy'n cyrraedd Antur Waunfawr yn cael eu didoli gan weithwyr a staff y cwmni, eu golchi, smwddio, ac wedyn eu pecynnu ar gyfer eu hail-ddefnyddio. Gan roddi eich hen ddillad i Antur Waunfawr, nid yn unig byddwch yn cyfrannu at yr amgylchedd a'r economi leol, ond hefyd byddwch yn cefnogi gwasanaethau gwaith a hyfforddiant mae'r Antur yn rhedeg.

Anfonir dros filiwn tunnell

fetrig o decstilau i safleoedd tirlenwi pob blwyddyn. Dillad yw rhwng 400,000 a 700,00 o'r tunelli hynny, a gallem ni ailgylchu o leiaf 85% ohonyn nhw. Gallwch chi gyfrannu trwy chwilio'ch cwpwrdd a didoli'r pethau na fyddwch chi'n eu gwisgo.

Gwylwch eich blwch post dros yr wythnosau nesaf am daflen gwybodaeth gan yr Antur, a chofiwch os na ydych yn ei wisgo.....Ailgylchwch!

ECO'R WYDDFA

DRWY'R POST

I dderbyn ECO'R WYDDFA i'ch drws bob mis cysylltwch ag Olwen Hughes.

Mae ei manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 2.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

YSTAFELLOEDD YMOLCHI

A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090
Mobile-07894818783

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED. Dymunir pob lwc i'r rhai sy'n cychwyn yn yr ysgol Uwchradd a chroeso cynnes i'n newydd ddyfodiaid gan obeithio y byddant yn ymgynffwrdd yn sydyn yn ein plith.

YSGOL SUL BOSRA. Gobeithio i bawb ohonoch gael egwyl braf a gwyliau da. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 6 Medi am 10.00 y bore. Croeso twymgalon i aelodau newydd.

Rydym fel athrawon yn cydymdeimlo'n ddwys gydag Elen George a'r teulu o golli mam a'n nain annwyl.

CAPEL BOSRA. Bnawn Sul, 19 Gorffennaf, gyda Merfyn Jones, Caernarfon, yn gwasanaethu, derbyniwyd Catrin Jarvis, Catrin Jones a Nia Eysyllt yn gyflawn aelodau.

Am 3.30, gyda'r Parch Pryderi Llwyd yn gweinyddu bedyddiwyd Elain, merch fach Nia a Stephen Walker, Brynrefail.

APÊL Y CAPEL. Y mae dyddiau o'r Calendr 2009 yn cael eu gwerthu am £1 yr un er budd adnewyddu'r capel. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn o'ch caredigrwydd a'ch cydweithrediad arferol. Gobeithir gwerthu'r 365 niwrnod.

YMDDEOLIAD. Dymunir ymddeoliad dedwydd i Dafydd Les Roberts, Pen Dinas Mawr, wedi blynyddoedd fel Pennaeth Ysgol Deganwy, yn ogystal â Carolyn, ei wraig, fel Athrawes Gofal Arbennig i'r rhai â nam golwg. Pob bendith i'r ddau ohonoch a mwynhewch eich ymddeoliad.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Awst a'r enillwyr lwcus yw Richard Green, Tan y Coed, ac Efa Thomas, Cricieth.

Buasem yn hynod falch o gael aelodau newydd i'r Clwb Cant gan ei fod yn hynod werthfawr

tuag at godi arian at gynnal y Rhan Gymunedol o'r Neuadd.

RAS PELI. Bu'r gweithgaredd hwn yn hynod lwyddiannus eto eleni. Gwerthwyd bron i 300 pêl a diolchir i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson. Yr enillwyr oedd Erin Fflur, wyres Irfon a Heddwen, Garej Cwm; Rhys Jones, Cae Corniog Bach; Irfon, Garej Cwm.

GWELLHAD. Gyda'r tywydd anwadal a mis Awst hynod siomedig, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl. Ein cofion arbennig at Beti Pritchard, 3 Llys y Gwynt ac Annie Hughes, Llys y Gwynt, wedi eu triniaethau yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri. Rydym yn anfon ein cofion atat tithau, Bryn Griffiths, Bryntirion gynt, ac yn holi amdanat yn gyson. Mae'r siŵr y cawn dywydd teg unwaith y bydd yr ysgolion yn ailddechrau - rhyw Ha Bach Mihangel.

LLONGYFARCHIADAU. Rydym mor falch o longyfarch David Brailsford ar ei dderbyn yn Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol Cymru yn ddiweddar am ei wasanaeth clodwiw ym myd chwaraeon - yn arbennig Beicio.



David Brailsford, Cymrawd Anrhydeddus Prifysgol Bangor.

POB DYMUNIAD DA i Ynyr a Gwenllian Glyn ar achlysur eu priodas. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

ARHOLIADAU. Gyda balchder yn flynyddol y llongyfarchwn ein pobl ifanc ar eu llwyddiannau ysgubol yn yr amrywiol arholiadau a dymunir pob llwyddiant i chwi yn y chweched, y colegau a'ch swyddi newydd.

Dymuna Jen, mam Luke Lloyd Hughes a Llŷr, ei frawd, ei longyfarch ar ei lwyddiant yn yr arholiadau Safon Uwch, gan ddymuno pob lwc iddo ym Mhrifysgol Bangor yn yr Adran Wyddonol.

E I S T E D D F O D GENEDLAETHOL Y BALA. Llongyfarchiadau i Lois Eifion a Daniel Safko ar gipio'r wobr gyntaf i ddeuawd offerynnol. Llongyfarchiadau hefyd i John Eifion a Chôr y Brythoniaid am gipio'r ail safle mewn cystadleuaeth o safon uchel i'r Corau Mawr.

Balchder o'r mwyafrif hefyd oedd gweld Eurgain Haf, er gwaethaf ei baglau wedi anffawd gyda'i cheffyl, yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth y Corau Cymysg, ac yn cael dathlu gyda Chôr Godre'r Garth ar dderbyn y wobr gyntaf.

ARHOLIADAU PIANO. Y mae Anest Bryn yn prysur ddal i fyny â'i chwaer, Lois Eifion, gyda'i phiano. Llwyddodd i dderbyn gradd 7 yn ddiweddar. Ardderchog wir, Anest! LLONGYFARCHIADAU hefyd i Tomos Parry, Waunfawr, ŵyr Avril a Geraint, Careb, ar lwyddo yn ei arholiad Gradd I. Da iawn chdi, Tomos, dal ati rŵan. Cofia, dyfal donc a dyr y garreg.

Y mae'r ddau yn ddisgyblion i Carys Jones, Cae Eboni. SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON. Dymuna Cangen Caernarfon ddiolch o galon i Elizabeth Jones ac Ann Ifans am gynorthwyo gyda'r casgliad o dŷ i dŷ. Casglwyd £145. Diolch o galon i bawb am eich haelioni.

CARTREF NEWYDD. Pob dymuniad da i Jonathan Richardson a Bethan yn eu cartref newydd yn Stad Minffordd, Llanrug. Croeso twymgalon i Bethan i fro'r Eco. Rydym mor falch o weld ein plant ifanc yn aros yn y fro.

TI A FI. Cychwynnir mudiad Ti a Fi yn Neuadd Gymuned Ysgol Penisarwaun bnawn Iau, 3 Medi o 1.30 hyd 3.30. Codir tâl o £1 y plentyn/babi - bydd cyfle i gymdeithasu gyda phaned, cyd-chwarae a chael mwyniant. Croeso cynnes i unrhyw riant sydd â diddordeb i ymuno yn yr hwyl.

EISTEDDOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos Wener, 20 Tachwedd. Atgoffir aelodau'r Pwyllgor fod

Pwyllgor nos Lun, 7 Medi am 7.30 o'r gloch i gadarnhau'r rhaglen amrywiol a threfnu Noson Goffi.

Y CARNIFAL. Gorffennaf 5-11. Bu'r wythnos o weithgareddau yn hynod lwyddiannus eto eleni. Cychwynnwyd ar nodyn uchel gyda Chymanfa Ganu fywiog yn Eglwys Santes Helen dan arweiniad Arwel Jones, gyda'r rhan agoriadol yn nwylo'r Ficer, Lloyd Jones. Yr organydd oedd y Dr William Munro. Cafwyd datganiadau hyfryd gan Gôr Plant yr Ysgol Gymuned, Côr Meibion Dyffryn Peris ac Elin Mair, Llanberis. Bu'r nosweithiau Bingo, Gyrfa Chwist, Mabolgampau, Disgo'r Plant a'r Helfa Drysor yn llwyddiant mawr. Bu'r tywydd yn garedig a'r haul yn tywynnu bnawn Sadwrn i'r Carnifal.

Cychwynnodd yr orymdaith o'r Cartref Nyrsio am 1.30 gyda aelodau o Fand Pres Llanrug. Coronwyd Annia Evans yn Frenhines y Carnifal gyda'i gosgordd Catrin a Rhiannon a'r Tywysog Jordan. Bu cystadlu brwd yn yr amrywiol gystadlaethau a bu'n dasg anodd i Dr a Mrs Huw Tegid Roberts a Mrs Paul feirniadu'r gwisgoedd ffansi gwyh.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y Carnifal.



Jean y Raffl Cwin a Janet a'i pheli Bingo.

PLYGU'R ECO. Atgoffir chwi garedigion yr Eco, mai Penisarwaun fydd yn plygu rhifyn Tachwedd. Erfynnir yn daer am eich cefnogaeth arferol ac estynnwn groeso cynnes i unrhyw un ddod atom i Neuadd Eglwys Santes Helen o 5 o'r gloch ymlaen ar nos Iau, 1 Hydref.

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-host: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

Y Chwarel yn Cau (Awst 22, 1969 – 2009)

Ysgytwol fu'r pnawn yng 'Ngwaelod y Gwaith' –
dadansoddi'r hen oes ysgoga'r co';
deffro sylweddoliad – cofio yr iaith
o'r sinc, twll a'r sied – hen gelfi'r fro:
rhys, cowjan, rhaff, a'r cyn bach, a'r ffarwél
roc, pric mesur, cyllall bach, plocyn tin,
mesur y crawia – ar ôl merchaid swèl –
ond er hwyl y caban – bu'r llwch yn flin.

Yr oedd neuadd y 'cownti' dan ei sang
a mynd ar eitemau ddoe-heddiw'r cwm –
côr a'r 'Hogia', dau fand, i'engtid rôl bang
o euogrwydd i'n holl atgofio trwm,
roedd trydan o hyd mewn acen a sgwrs,
os yw'r corn yn fud - mae'r fro'n dal ei chwrs.

NORMAN CLOSS [FACHWEN]

DIGWYDDIADAU ARBENNIG I GOFFÂU 40 MLYNEDD ERS CAU CHWAREL LECHI DINORWIG

Roedd Amgueddfa Lechi Cymru
yn Llanberis yn coffáu 40
mlynedd ers cau Chwarel
Dinorwig ym 1969 gyda cyfres o
ddigwyddiadau arbennig yn
ddiweddar.

Caewyd y chwarel ar 22ain
Awst 1969; collodd 350 o
ddynion eu swyddi a bu'r effaith
ar bentref Llanberis a'r
gymdogaeth yn aruthrol gan
newid cymuned chwarelyddol a
ffordd o fyw a oedd wedi bodoli
ers y 1780au, am byth.

'Roeddem yn ceisio rhoi
hanes y cau yn ei gyd-destun,'
egluodd Julie Williams,
Swyddog Marchnata yr
amgueddfa. 'Gan fyfrio ar y
bennod bwysig hon mewn hanes
ac edrych yn fwy manwl ar yr
effaith a gafodd y cau ar y
gymuned ac ar ei phobl.'

'Ganrif ynghynt, byddai cau'r
chwarel wedi bod yn
annirnadwy. Roedd Chwarel
Dinorwig yn un o'r chwareli
llechi mwyaf yn y byd – a, gyda
Chwarel y Penrhyn ym
Methesda, gallai gynhyrchu
mwy o lechi toi mewn blwyddyn
na'r holl chwareli llechi eraill yn
y byd gyda'i gilydd. Cafodd y
tawelwch dieithr a ddaeth i
Ddinorwig ym mis Awst 1969

effaith enfawr a hirbarhaol ar yr
ardal.'

Mae arddangosfa yn edrych ar
gau'r chwarel eisoes wedi agor ar
y safle, a roedd y digwyddiadau
yn cychwyn yn yr wythnos yn
arwain i fyny at gau'r chwarel,
sef Awst 22, 1969.

Ar 17, 18 a 19 Awst
cynhaliwyd cyfres o deithiau
tywys i'r chwarel yng nghwmni'r
hanesydd lleol, Mr Dafydd
Whiteside Thomas. Yna ar 20,
21 a 22 Awst cafwyd
perfformiadau o ddrama
arbennig wedi ei chomisiynu ar
gyfer yr achlysur yn cael ei
pherfformio yn yr amgueddfa ac,
ar 22 Awst, cynhaliwyd
'Diwrnod Agored' yn yr
amgueddfa rhwng 1pm a 3pm,
gyda'r staff yn croesawu pobl leol
ac ymwelwyr er mwyn hel
atgofion gyda nhw ynglŷn â'u
profiadau o gau'r chwarel.

Hefyd, am 7.30pm ar 22 Awst,
cynhaliwyd cyngerdd arbennig
yn Ysgol Brynrefail, Llanrug,
gyda'r perfformwyr i gyd yn
hanu o ardal Chwarel lechi
Dinorwig.

'Roedd yr holl weithgareddau
wedi'u canoli o gwmpas yr adeg
y byddai'r chwarelwyr wedi
derbyn llythyr diswyddo gan


DINORWIG '69

gwmni'r Dinorwic Slate
Quarries Co Ltd,' meddai Julie.
'Roedd y teithiau tywys yn
arwain pobl i ganol y chwarel ac
i galon y lleoedd llafur caled. Yn
y ddrama cafwyd cipolwg
pellach ar gefndir y cau ac
roeddem yn gobeithio y byddai
nifer o ymwelwyr yn gallu
rhannu eu profiadau nhw hefo ni
ar y prynhawn er mwyn i ni
ychwanegu at rai o'r storïau sydd
wedi eu hel gennym yn barod.
Yna'r cyngerdd yn rhoi ffenest i
rai o'r talentau a fagwyd yn yr
ardal hon.'

Mae mynediad i'r Amgueddfa
a'r holl weithgareddau AM
DDIM a gellir cysylltu â'r
amgueddfa ar 01286 870630 neu
drwy ebostio: llechi@
amgueddfacymru.ac.uk.

Am fwy o fanylion ynghyd ag
unrhyw un o'r digwyddiadau
cysylltwch â'r amgueddfa ar
01286 870630.

LLUNIA



Dr. Dewi Ellis Jones offerynwyr.

DRAMA'R COFIO



Tomos, Chwarelwr sydd newydd golli ei waith yn y chwarel -
chwarawyd gan Llion Williams.

Y mab, Gwyn, sydd yn hoff iawn o ganeuon Dafydd Iwan - cymeriad
wedi chwarae gan Aron Evans.

Judy Sian (Saesnes o Lerpwl sydd yn aros yn Llanberis efo'i Nain) yn
cael ei chwarae gan Mared Elliw Hughes.

- Priodasau ● Dathliadau
- Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
- Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

H.E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

YSGOL BRYNREFAIL



Mr Harri Jones yn cyflwyno sic o £350 i Rebecca Snowden a Hanna Gwynn. Cyfraniad gan yr ysgol i fynd tuag at drip y genod i Nigeria i wneud gwaith gwirfoddol am dair wythnos dros yr haf.

CANLYNIADAU TGAU GWYNEDD 2009

Mae Cyngor Gwynedd wedi talu teyrnged i holl fyfyrwyr y Sir sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau canlyniadau ardderchog yn arholiadau TGAU eleni.

Wrth longyfarch yr holl ddisgyblion ar eu llwyddiant, dywedodd y Cynghorydd Liz Saville Roberts, Arweinydd Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd:

'Mae canlyniadau TGAU yn dda eto eleni ac yn dyst i ymroddiad ein pobl ifanc, athrawon a rhieni. Gallwn fod yn falch iawn o lwyddiant addysgol ein pobl ifanc sydd yn allweddol i ddyfodol y Sir.'

'Hoffwn longyfarch pob un sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, ac yn benodol i'r rhai hynny sydd wedi ymdrechu'n galed ac wedi cyflawni eu potensial - nid yw'r ystadegau moel yn dangos hyn. Carwn ddiymuno'n dda i bob un ohonynt wrth iddynt symud ymlaen yn eu haddysg a hyfforddiant Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i'r athrawon am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth gefnogi ac ysbrydoli cin pobl ifanc Gwynedd.'

Ychwanegodd Dewi R. Jones, Pennaeth Adran Addysg Cyngor Gwynedd:

'Unwaith eto eleni mae'r canlyniadau yn rhai i fod yn falch ynddynt. Mae'r ganran sydd wedi llwyddo, sef y ganran A*-G, yn 98.4% sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol ac yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir

ar gynhwysiad yn yr ysgolion. Yn ogystal, mae'r ganran a enillodd y graddau uwch [A* ac A] bellach yn 19.8% a graddau A*-C yn 69.4% sydd gryn dipyn yn uwch na'r ffigyrau ar gyfer Cymru. Mae canlyniadau 2009 yn dda ac mae'r disgyblion a'r staff i'w llongyfarch am eu hymdrechion a'u llwyddiannau.'

'Mae ansawdd y canlyniadau yn dderbyniol iawn ym mhob un o'r pynciau ond mae'n bleser gallu nodi bod canrannau llwyddiant yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn parhau yn dda sydd yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir yn yr ysgolion ar ddatblygu sgiliau sylfaenol y disgyblion. Mae canrannau llwyddiant mewn pynciau unigol megis Ffrangeg, Cerdd, Addysg Grefyddol, Cerdd a Drama hefyd yn dda. Rwyf hefyd yn falch iawn o lwyddiant y disgyblion mewn pynciau galwedigaethol eu naws megis Arlwyfaeth a Lletygarwch, Twristiaeth a Hamdden ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

I bob plentyn a safodd arholiadau eleni

I Ysgol, nid arholiad - yn unig yw mcini datblygiad; mae doniau sy'n hau yr had a'n wrciddyn i warciddiad.
RLJ

Cynllun Atal Twyll yn Boblogaidd yng Nghaernarfon

Mae cynllun sy'n defnyddio technoleg flaengar i helpu i atal twyll pasport a chadw pobl rhag camddefnyddio gwybodaeth am bobl eraill i gyflawni troseddau difrifol, yn llwyddo yng Nghaernarfon.

Cafodd y Gwasanaeth Cyfweiliad Fideo (VIS) ei lansio gan y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasportau (IPS) fis Chwefror. Mae'n defnyddio cyswllt fideo diogel, i gysylltu pobl sy'n gwneud cais am basport cyntaf i oedolyn, gyda staff wedi'u hyfforddi ac sydd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd mewn swyddfeydd cyfweiliad pasportau. Mae dros 300 o ymgeiswyr wedi ei ddefnyddio'n barod.

Mae'r Cyfweiliad Fideo VIS yn un o amrediad o fesurau atal twyll mae'r Llywodraeth yn eu defnyddio i wneud yn sicr fod y pasport ymysg y rhai mwyaf diogel yn y byd.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael am fod 68 o swyddfeydd ar draws y Deyrnas Unedig wedi cael eu paratoi i roi cyfweiliad wyneb yn wyneb i ymgeiswyr tro cyntaf am basport oedolyn, er mwyn rhwystro twyllwyr.

Yng Nghaernarfon, mae'r gwasanaeth cyswllt fideo newydd yn gweithredu mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, sy'n darparu lle yn swyddfa Penrallt a staff i hwyluso'r cyfweiliadau.

Yn ogystal â bod yn rhwystr mawr i dwyllwyr, mae'r broses o

gyfweiliad o hirbell wedi bod yn gyfleus i 352 o oedolion oedd yn gwsmeriaid yng ngogledd orllewin Cymru ac oedd eisiau gwneud cais am basport am y tro cyntaf yn ystod y chwe mis diwethaf. Doedd dim angen iddyn nhw deithio cannoedd o filltiroedd i'r swyddfa gyfweiliad pasport agosaf.

Dywedodd y Gweinidog dros Hunaniaeth yn y Swyddfa Gartref, yr Arglwydd Brett:

'Mae cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn allweddol ar gyfer atal twyllwyr sydd eisiau defnyddio hunaniaeth pobl eraill i gyflawni troseddau difrifol yn cynnwys twyll budd daliadau, gweithio yn anghyfreithlon, delio mewn cyffuriau a therfysgaeth.

'Mae'r Gwasanaeth Cyfweiliad Fideo wedi'i drefnu i fod yn ffordd gyfleus i oedolion yng ngogledd orllewin Cymru wneud cais am basport am y tro cyntaf, trwy wneud yn sicr fod y pasport Prydeinig yn parhau i fod yn un o'r dogfennau teithio mwyaf diogel yn y byd.'

Fe wnaeth yr IPS atal 9,832 o geisiadau twyllodrus am basport y flwyddyn ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig, ac mae wedi ymrwmo i ostwng lefel y twyll pasport hyn yn oed yn is na hyn.

Mae mwy o wybodaeth am basportau a sut i wneud cais am un ar gael oddi wrth y Llinell Gyngor ar Basportau, 0300 222 0000, ac yn www.ips.gov.uk

Gwedd newydd i finiau Gwynedd

Fydd dim esgus gan bobl dros ollwng ysbwriel ar strydoedd Gwynedd wedi cyflwyno biniau newydd sbon drwy'r sir.

Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau nawdd gan ymgyrch Trefi Taclus Llywodraeth y Cynulliad i brynu 100 o finiau newydd ar gyfer canol trefi a chanolfannau siopa ledled y sir.

Gall pobl sy'n cael eu dal yn fwriadol gadael sbwriel ar y stryd wynebu dirwy yn y fan a'r lle.

Bydd blwch llwch ar y biniau fel na fydd stympiau sigarét yn cael eu gollwng ar y stryd ac i leihau'r perygl o ysmygwyr yn dechrau tân mewn biniau drwy ddamwain wrth gael gwared â'u sigarét.

Bydd catad arbennig ar y biniau newydd hefyd i arbed gwyllanod a phla craill rhag gwneud mwy o lanestr ar ein strydoedd a mannau cyhoeddus.

Croesawodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Arweinydd

Portffolio Amgylchedd Cyngor Gwynedd, y biniau newydd.

Meddai: 'Mae'n drist dweud ein bod yn gorfod atgoffa pobl i ddefnyddio biniau neu i fynd â sbwriel adref gyda hwy a pheidio ei adael ar lawr. Rydym yn derbyn llawer o gwynion am stympiau sigarét a gwm cnoi wedi eu taflu ar lawr. Gall troseddau amgylcheddol fel yma wneud i'n cymunedau edrych yn flêr a gall niweidio ein hiechyd.

'Rydw i'n gobeithio bydd y biniau newydd yn annog pobl i wneud y peth iawn a chael gwared â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol.

'Mae'n werth atgoffa pobl y gallwn ailgylchu llawer o bethau sy'n cael eu taflu i finiau ar y stryd megis poteli a chaniau diod.

'Gall pobl sy'n taflu sbwriel ar y stryd wynebu dirwy gan Wardeiniaid Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd neu Swyddogion Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu.'

YSGOL BRYNREFAIL

Yr Wythnos Drawsgwricwlaidd

Yn ystod wythnos olaf ond un y tymor diddymir amserlen arferol disgyblion blyneddoddd 7, 8 a 9 a chant gyfle i fwynhau wythnos o weithgareddau amrywiol y tu hwnt i furiau'r dosbarth. Yn yr Adran Gymraeg rydym yn trefnu dwy daith - y naill ar gyfer Blwyddyn 7 a'r llall ar gyfer Blwyddyn 9. Mae Blwyddyn 7 yn dechrau'r diwrnod trwy ymweld â Chastell Dolbadarn cyn troedio llwybr y chwarelwyr yn Ninorwig at farics Môn. Wedyn, maent yn treulio'r prynhawn yn

casglu gwybodaeth yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Dyma sylwadau rhai o'r plant:

'Roeddwn i'n hoffi cael mynd allan o'r dosbarth a gweld y pethau roeddem wedi dysgu amdanynt.' - Sara Parry

'Roedd hi'n braf cael gafael yn yr offer a gweld y chwarelwyr yn hollti a naddu.' - Liam Hughes

'Er ei fod yn anodd, mi wnes i fwynhau cerdded y llwybr serth a gweld pa mor anodd oedd bywyd y chwarelwyr - a hynny cyn cyrraedd eu gwaith hyd yn oed!' - Elliw Hughes



Rhai o ddisgyblion Blwyddyn 7 ar y llwybr igam ogam i fyny i'r chwarel.

Mosgito

Braf oedd gallu croesawu un o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn ôl i'w gynefin yn ddiweddar. Mae Trystan Morris - o Ddeiniolen yn wreiddiol - bellach yn gyflwynydd ar raglen deledu boblogaidd Mosgito, sy'n cael ei chynhyrchu yn y ddinas fawr ddrwg. Ond fel rhan o'i waith, daeth draw i Frynrefs i ffilmio citem ar gyfer y rhaglen.

Mae gan yr ysgol gwrs

diddorol yng nghyfnod Allweddol 4 o'r enw 'Traffig' ble mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am egwyddorion sylfaenol mecanwaith a hefyd ennill cymhwyster gyrru beic modur. Mae'n bwnc hynod boblogaidd gyda'r disgyblion a braf oedd eu gweld gyda'u hathro, Mr. Howyn Jones ar S4C yn arddangos eu doniau. Doedd Trystan ddim hanner mor gelfydd ar y beic!!!



Yr Adran Gymraeg Rhoi'r byd yn ei le!

Yn ddiweddar gwahoddwyd carfan o ddisgyblion Ysgol Brynrefail i fynd i Galeri Caernarfon er mwyn cyfweld

dirprwy brif weinidog y Cynulliad, Ieuan Wyn Jones. Cawsant gyfle i'w holi ar bob math o bynciau llosg, a hwyrach y bydd ambell un yn dilyn ôl ei draed yn y dyfodol!



Rhai o'r disgyblion gyda Ieuan Wyn Jones.


Taith Ddiwylliannol

Taith ddiwylliannol oedd ar gyfer Blwyddyn 9, yn taro ar fannau allweddol yn ein hardal. O gartref T. H. Parry-Williams yn Rhyd Ddu, i gartref ei gefnder, R. Williams Parry, yn Nhalysarn, cafodd y disgyblion weld cymaint sydd gan yr ardal

hon i'w gynnig. Treuliwyd amser yn cerdded y Lôn Wen hefyd cyn ymweld â chartref Kate Roberts yn Rhosgadfan. Wedyn, ymlaen â ni i Glynllifon i fwynhau hanes Cilmyn a gweld cofeb Gwerin y Graith a'r Amffitheatr anhygoel.



Adam, Jordan a Gwion yng Nghae Gors



Genehod yn casglu tystiolaet!

— COFIO'R CAU AU O'R CYNGERDD —



Hogia'r Wyddfa



Band Llanrug. Arweinydd: Paul Hughes



Côr Meibion Dyffryn Peris ar flaen y gynulleidfa




Dr Dafydd Roberts a Dei Tomos



Band Deiniolen. Arweinydd Wyn Williams



Annette Bryn Parri ac Elin Wŷn



Emyr Gibson

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

LLANRUG

Parhad o dudalen 11

PLAID CYMRU. Helfa Drysor eleni oedd yr orau eto: dyna oedd barn y criw a ddaeth ynghyd nos Fercher, Gorffennaf 8, i fwynhau swper bendigedig i gloi'r noson yng Nghlwb Golff Caernarfon. Roedd yr helfa wedi ei threfnu'n arbennig o dda gan Rhian Thomas a Bethan Roberts, a phawb wedi mwynhau'r daith ar noson hyfryd o haf ar hyd ffyrdd diddorol gyda golygfeydd gwych o gwmpas yr ardal. Yr enillwyr oedd Nan, Meryl, Julie a Pat, ac aeth y wobrgysur, y bwbi, i Enid, Carrie a Llinos. Enillwyr y rafflau oedd Sioned, Nel, Sian, Ruth a Miriam.

Y flwyddyn nesaf, bydd Alfie, Heulwen a Bethan yn trefnu'r helfa drysor.

Diolchodd Phyllis Ellis, Llywydd y Gangen, i Rhian a Bethan am noson mor ddifys, ac i'r tri fydd yn gyfrifol am helfa 2010 am eu parodrwydd i drefnu noson arall o hwyl.

THEATR BARA CAWS

'Wil Sam, y Dewin Geiriau' yw cynhyrchiad nesaf Theatr Bara Caws, - sioe un dyn a fu'n gyfaill, cydweithiwr ac yn aml iawn yn ysbrydoliaeth i'r diweddar Wil Sam Jones. A phwy yn well i gyflwyno noson ddifys am Wil Sam na'r actor a'r cymeriad, Stewart Jones? Bydd yn gyfle prin i gael cyfarfod Ifans y Tryc unwaith eto.

Croeso cynnes i bawb i'r Sefydliad Coffa nos Fercher, Medi 1 am 7.30 o'r gloch. Mynediad trwy docyn £2.00, - ffoniwch 01286 674478

MERCHED Y WAWR. Bydd y gangen yn cyfarfod yn Y Sefydliad Coffa nos Fawrth, 8 Medi am 7.30 yh. Y gŵr gwadd fydd yr actor a'r digrifwr, Dyfan Roberts. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd. Dewch atom, mac

rhaglen ddifys ac amrywiol wedi'i threfnu am y flwyddyn. Atgoffir Genod Penisarwaun mai chwi fydd yn gyfrifol am y baned a'r raffl.

CAPEL Y RHOS. Oedfaon mis Medi fel a ganlyn:

6: Y Gweinidog, ac fe weinyddir y Cymun

13: Parch J.M. Job

20: Y Gweinidog

27: Parch John Treharne

Y SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr Gorffennaf ac Awst oedd: £20: Mrs J. Jones, 4 Disgwylfa; £7: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan; £5: Mrs M. Davies, Bod Awel.

£20: Mrs E. Rowlands, Llys Forgan; £7: Mr I. Williams, Disgwylfa; £5: Mrs S. Williams, Glyn Afon.

DYMUNIADAU PEN-

BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Helena Munro, 1 Penrallt, Ffordd yr Orsaf, ar ei phen-blwydd yn 95 oed ym mis Medi. Hefyd i Mrs Nancy Lovatt, Gogerddan, Aberystwyth (gynt o Brwynog, Ffordd yr Orsaf) ar ei phen-blwydd hithau yn 90 oed yn ddiweddar. Deallwn hefyd ei bod yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch.

Y M D D E O L I A D DOSBARTHWR YR ECO.

Dymunwn ddiolch yn fawr iawn i Dafydd Pritchard (Glanmoelyn gynt) am ei waith diflino yn dosbarthu'r Eco yn ei ardal am flynyddoedd. Dymuniadau gorau i chi a Linda yn eich cartref newydd yn Afon Rhos.

MARWOLAETHAU. Yn sydyn iawn, bu farw Alwyn Williams, Bryn Derwen, Ffordd Crawia, yn 58 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'r teulu yn arw ac hefyd ei holl ffrindiau.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Katie Davies a'r teulu, Hafan Elan, yn ci

phrofedigaeth o golli ei merch yng nghyfraith yng Ngharmel, sef gwraig annwyl Meirion.

Hefyd, bu farw Alwyn Owen, Llanberis, cydymdeimlwn â'i frawd, Michael, Bryn Beuno, a'r teulu oll.

BABIS NEWYDD.

Dymuniadau gorau i Lowri a Siôn Gwyn ar enedigaeth Myfi Gwyn, chwaer fach i Math ac Olwen a wyres fach newydd i John a Mary Roberts, Bedw Gwynion.

Hefyd, mab bach i Gwenno ac Iwan Parry, Stad Minffordd. Croeso mawr i Now Ifan, cefnder bach i Beca a Guto ac ŵyr i Geraint a Margaret, Bro Dawel.

Chwaer fach gafodd Guto, Afon Rhos, Lois Gwilym. Llongyfarchiadau i Mam a Dad, sef Gwen a Stephen ac i Nain a Taid, Glyn a Lynne, Stad Talybont.

Dymuniadau gorau i Catrin a Gwyndaf, Stryd Turner, Llanberis, ar enedigaeth eu mab bach hwythau, sef Morgan. Cafodd groeso mawr gan Robin, Anna, Guto a Beth ac, wrth gwrs Dafydd ac Eirianwen, sef Taid a Nain.

Daeth Hefin a Linda, Pant Mwyn, yn Daid a Nain eto. Ganed merch fach, Greta Heulwen, i Menna ac Al, chwaer fach i Efa. Pob dymuniad da iddynt.

Llongyfarchiadau hefyd i Elan a Mathew, Melbourne House, ar enedigaeth eu bachgen bach, Llion John. Mae Nain Gwenda wedi gwirioni.

DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Menna Williams, Minffordd, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ôl triniaeth am ben glin newydd yn ddiweddar.

Dymuna Gertie Kirkpatrick ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, arian a galwadau ffôn

gafodd tra roedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i feddygon a nyrsys Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd a Ward Padarn, Ysbyty Eryri, ac i bawb sydd wedi ymweld â hi yn yr ysbyty ac adref. Diolch yn arbennig i Dilys, Arthur, Wendy ac Alwyn am gludo Ellen i'r ysbyty. Diolch yn fawr i bawb. **C A N L Y N I A D A U ARHOLIADAU.**

Rhaid llongyfarch ein plant a'n pobl ifanc ar ganlyniadau arbennig yn yr arholiadau ysgol a choleg. Mae'n amser cyffrous i rai, y symud ymlaen i golegau oddi cartref, i swyddi a chychwyn ar fywyd newydd. Pob dymuniad da i chi i gyd. **BRYSIWCH WELLA.**

Dymunwn wellhad buan i sawl person sydd wedi bod mewn ysbytai neu yn wael gartref dros yr haf.

LLONGYFARCHIADAU i Idwal Williams, Disgwylfa, ar ennill y gystadleuaeth Galw Twmpath yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala eleni. **COFIWCH** ddod â'ch newyddion i ni gael eu cynnwys bob mis.

LLONGYFARCHIADAU i Elfed Roberts (gynt o Gaernarfon) sy'n Brif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol ar gael ei wneud yn Gymrawd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd eleni. Derbyniodd un clod yng ngholeg UWIC yn y brifddinas y llynedd a chyn hynny ym Mhrifysgol Bangor yn 2005.

DIOLCH. Dymuna Catrina Gwyndaf, Stryd Turner, Llanberis ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Morgan ar ei enedigaeth.

Gefnogwch ein Hysbysebwy

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR

MEWNFORIO YR ALMAEN
UNION OLUNION CAMBELS TRYDANOL
SWEDEN

SKODA
BMW
PEUGEOT
BRÉCS
CLUTCHES TYRBO
ABS
FIAT
AIR CON
GWASANAETH
BATRIS
VOLVO
MERCEDES
SAAB

-Cymhwyster- BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stad Cŵyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 WWW.R-Y-W.CO.UK

Gwasanaeth i'r Car
BOSCH Service
OFT

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU GORAU i Hawys Llwyd Price, 'Rynys, Llanddeiniolen, ar gael ei derbyn i'r Birmingham Conservatoire i ddilyn cwrs B.Mus. perfformio ar y piano o fis Medi ymlaen, a hynny ar ôl cael gradd 8 anrhydedd mewn canu ac ar y piano.

CLWB BRO BETHEL. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r Clwb brynhawn Mawrth nesaf, Medi 8fed, yn Festri Capel Bethel. Y siaradwr gwadd fydd Dafydd Ellis, Brynrefail. Bydd cyfle i ymaelodi am y flwyddyn am £1, a dal i fyny a chael cymdeithasu ymysg cyfeillion ar ôl seibiant dros yr haf.

MERCHED Y WAWR. Bydd gweithgareddau'r Gangen yn ail gychwyn nos Fercher nesaf, Medi 9fed, yn Festri Capel Cysegr am 7.30. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu am y flwyddyn a bydd croeso arbennig i unrhyw un o'r newydd sydd yn teimlo fel ymuno â'r Gangen. Bydd y noson agoriadol yng nghwmni Parti Boncathod, a bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn cyfraniad y Parti.

DIOLCH. Dymuna Mrs Myrna Owen ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar ôl ei thriniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd Goffa nos Wener, 11eg o Fedi, 2009 am 6.30 o'r gloch. Bydd stondinau cacen a nwyddau, tombola, llyfrau a.y.b a raffl. Bydd Rita neu unrhyw aelod o'r pwyllgor yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag at y noson, neu dowch a nhw i'r neuadd erbyn 6 o'r golch, os gwelwch yn dda.

Bydd cyfle hefyd i roi enwau'r

plant a ieuenctid sydd â diddordeb mewn ymuno a phartion canu, llefaru, a cherdd dant (cynradd ac uwchradd). Mae angen hyfforddwyr i'r partion, felly os oes unrhyw un a diddordeb, plis rhwch wybod ar y noson neu ar 670601. Diolch.

DOETHURIAETH I GYN BRIFATHRO. Dyfarnwyd gradd PhD gan Adran Gymraeg Prifysgol Bangor i J. Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel, ar sail dwy gyfrol o'i waith: *Byd a Bywyd Caradog Prichard* (2005) a *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad* (2008), y ddwy wedi'u cyhoeddi drwy wahoddiad gan Gyhoeddiadau Barddas.

Wedi'i eni a'i fagu ym Methesda, bu Elwyn yn ddisgybl yn Ysgol Pen-y-bryn ac yna yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Ar ôl ennill B.A. mewn Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, ac yna M.A. mewn Addysg, dychwelodd yn syth o'r Coleg i fod yn Bennaeth Adran y Gymraeg yn ei hen ysgol. Wedi blynyddoedd yn y swydd honno, penodwyd ef yn Ddirprwy Brifathro'r Ysgol ac yna, ddwy flynedd yn ddiweddarach, cafodd ei benodi'n Brifathro'r Ysgol. Ym 1988, daeth yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Iaith, un o dair canolfan genedlaethol a ddarparai ddeunyddiau addysgol ar gyfer sefydliadau addysg Cymru, yn ogystal â chyhoeddi gweithiau'n gyffredinol ac ymgymryd â gwaith cyfieithu a golygu ar ran amrywiol asiantaethau ledled Cymru a'r tu hwnt.

Pan ddaeth oes y Ganolfan i ben, yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ym 1996, trodd Elwyn at hunanliwtio fel ymgynghorydd iaith, golygydd a darlithydd.

Mae wedi cyhoeddi oddeutu ugain o deitlau dros y blynyddoedd, gan gynnwys un o'r llyfrau mwyaf poblogaidd yn yr iaith Gymraeg, *Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu*.

Symudodd ef a'i wraig, Deilwen, i fyw i Fethel oddeutu deunaw mlynedd yn ôl ac mae'r ddau, ynghyd â'u plant, Siôn Elwyn a Manon Elwyn, yn aelodau yng Nghapel Cysegr, lle mae Elwyn yn flaenor.

Cynhaliwyd y seremoni raddio ym Mhrifysgol Bangor ddydd Mawrth, Gorffennaf 14. Llongyfarchiadau calonnog iawn i Dr J. Elwyn Hughes.



LLONGYFARCHIADAU i Eifion Williams, Cefn Gwyn Bethel, ar ei ddewis yn brif feirniad yn adran y ceffylau yn Y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd eleni. Mae Eifion wedi ennill cryn glod yn y maes yma ers sawl blwyddyn bellach. Y mae'r gwybodusion o'r farn bod ei feirniadaethau wedi bod yn agos iawn i'r marc. Llongyfarchiadau hefyd am y wisg drwsiadus. Mae rhai, yn lleol, yn awgrymu bod ail-gyfeirio i fod draw yng Nghewn Gwyn, ac mai Eifion y 'male model' fydd yn britho y catalogs o hyn ymlaen!



EIFION WILLIAMS, CEFN GWYN, BETHEL,
Prif feirniad adran y ceffylau yn Sioe Frenhinol Llanellwedd eleni.

Yn y mwd bu'n cymodi
– dod â'i grefft
gyda graen eleni;
drwy frenhinol ddiolch
hybu wnaeth ein cobiau ni.

RLJ

LLONGYFARCHIADAU i Stephen a Gwenan Doy, Arfon House, Stryd Ganol ar enedigaeth eu mab, Huw Lewis. **LLONGYFARCHIADAU** a phen-blwydd hapus i Beryl Elizabeth Pacey, Hafod Elen, ar achlysur ei phen-blwydd yn 75. **DIOLCHIAIDAU.** Hoffai Stephen a Gwenan Doy, Arfon House, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Huw Lewis.


HOFFAI Beryl Elizabeth Parry, Hafod Elen, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn 75.

DIOLCH i Robin Jones am ei gyfraniad i'r Eco dros yr 20ain mlynedd diwethaf. Bu Robin yn dosbarthu'r *Eco* i ardal Rhos Lan a Stad Eryri ers dros 20 mlynedd, ond mae bellach am roi y gwaith i fyny. Diolch yn fawr i Robin a dymunwn adferiad buan iddo.

Diolch hefyd i Ellen Ellis a Mann Griffiths am fod mor barod i ymgymryd â'r gwaith.

LLONGYFARCHIADAU A DYMUNIADAU GORAU i ieuenctid yr ardal ar eu llwyddiant yn yr arholiadau mewn ysgol a choleg. Dymuniadau gorau hefyd i bawb yn y dyfodol, boed hynny yn yr ysgol, mewn coleg neu mewn gwaith.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth Williams, Llain yr Ardd ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a chydabod a fu mor cithriadol gefnogol iddi mewn gwahanol ffyrdd yn dilyn ei hanffawd mis Chwefror ac yn ystod y misoedd canlynol. Diolch i chwi i gyd.



Iwan Williams (Llanrug) a Dewi Griffiths (Bethel), dau aelod o Arian Poded sef grŵp offerynnol buddugol.

CDH

**Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol**

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Gobeithio, erbyn hyn, fod pawb wedi cael hyd i newyddion Waunfawr yn rhifyn diwetha'r Eco. O dan Cwm-y-glo yr oedd y newyddion. Roedd amryw wedi meddwl bod y Waun wedi cael ei anghofio.

YSGOL WAUNFAWR

Bu'n ddiwedd tymor llawn prysurdeb fel arfer - dyma rai digwyddiadau.

Clwb Pêl-droed Kick it. Cafodd plant yr Adran Iau gyfle i ddatblygu eu sgiliau pêl am awr yr wythnos dros gyfnod o 6 wythnos. Mwynhaodd pawb y gwersi'n arw. Gobeithir gallu trefnu 'r clwb eto y flwyddyn nesaf.

Yr ardd. Derbyniodd yr ysgol hefyd Wobr Aur Cynllun Gwyrdd Ysgolion Gwynedd a Môn am y drydydd flwyddyn yn olynol ynghyd â gwobr o £100. Diolch eto i Anna, Ceri, Delyth a'r rhieni eraill am eu holl waith gyda'r plant. Rydym wedi mwynhau blasu pys ffres o'r ardd, tatws newydd, mefus yn ogystal â 'riwbob cwl'. Edrychwn mlaen rŵan i llysiau'r Hydref.

Mabolgampau'r Ysgol.

Cawsom ddiwrnod digon braf i gynnal Mabolgampau'r ysgol ar Fehefin y 26ain. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda thim Cwellyn yn ennill am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau mawr i'r capteiniaid, sef Alex a Sophie.

Dyma restr o enillwyr y marciau uchaf yn eu blwyddyn:

Dosbarth Meithrin: Sophie a Sam Woodward; Dosbarth Derbyn: Celt ac Efa; Blwyddyn 1: Meilir a Tanwen; Blwyddyn 2: Tomos a Krenna; Blwyddyn 3: Rhys, Megan a Chloe; Blwyddyn 4: Huw a Mair; Blwyddyn 5: Tim ac Enlli; Blwyddyn 6: Dafydd Meredydd a Tesni.

Pencampwyr yr ysgol eleni oedd Dafydd Meredydd, Tesni bl 6 a Tim bl 5.

Twrnamentau

Tim pêl-rwyd blwyddyn 3 a 4 a ddaeth yn fuddugol yn nhwrnament pêl-rwyd yr Eco ddiwedd mis Mchefin. Llongyfarchiadau mawr i'r wyth ohonynt.

Enillodd y tim pêl rwyd blwyddyn 5 a 6 yn erbyn Ysgol y Gelli ddiwedd y tymor. Da

iawn genod!

Y Darian Gerdd. Cyflwynwyd y Darian Gerdd ddydd Gwener, Gorffennaf y 3ydd, i Megan Eira, blwyddyn 6. Mawr yw ein diolch eto eleni i Mrs Ann Marston am gyflwyno'r darian, y wobwr a chanfod gŵr gwadd arbennig ar gyfer yr achlysur. Eleni cafodd plant yr Adran Iau yr anrhydedd o wrando ar Gavin Saynor yn chwarae tri darn llawn asbri ar y Tiwba. Roeddynt wedi rhyfeddu. Cafwyd cyfle hefyd i wrando ar y plant o flwyddyn 2 i flwyddyn 4 sy'n derbyn gwersi offerynnol ddechrau'r bore.

Llongyfarchiadau i Megan Eira a mawr ddiolch i'r holl blant am eu gwaith caled.

Swyddogion Diogelwch y Ffordd. Heddiw bydd Alex a Megan Eira o flwyddyn 6, a etholwyd fel Swyddogion Diogelwch y Ffordd Ysgol Waunfawr eleni, yn cael eu gwobrwyo mewn seremoni arbennig yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon heddiw. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt am ymgymryd â'u tasgau mor gydwybodol drwy gydol y flwyddyn.

Tripiau ddiwedd tymor. Treuliodd y dosbarth meithrin fore ym Mharc Sipsi Caeathro ddydd Llun, Gorffennaf y 10fed, tra bu plant y dosbarth derbyn i flwyddyn 4 yng Camelot ar y 13eg o Orffennaf. Treuliodd blwyddyn 5 a 6 dridiau yng Nghaerdydd ddechrau Mehefin. Mwynhaodd pawb eu tripiau a rhaid canmol y plant am eu hymddygiad rhagorol.

Y Cyfarfod Gwobrwyo. Cynhaliwyd cyfarfod gwobrwyo'r ysgol ddydd Iau, Gorffennaf y 16eg.

Yr enillwyr eleni oedd:

Y Darian Gerdd: Megan Eira Bl 6; Y Darian Gywaith: Megan Enlli a Meleri Bl 6; Tarian Gelf: Cian a Pauline Bl 6; Tarian Ymdrech: Alex a Megan Elen Blwyddyn 6.

Cyflwynwyd tystysgrif Aur, Arian neu Efydd i holl ddisgyblion yr Adran Iau am eu hymdrechion gyda'u gwaith cywaith. Pleser oedd darllen eu gwaith.

Ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6. Dymunwyd yn dda i blant blwyddyn 6 sy'n cin gadael am

Ysgolion Brynrefail / Syr Hugh Owen / Tryfan a Friars. Anrhegwyd y plant yn y Cyfarfod Ffarwelio a derbyniodd bawb eiriadur yn rhodd gan yr ysgol. Hoffem hefyd ddiolch i Eglwys Betws Garmon am roi llyfr yr un i ddisgyblion blwyddyn 6.

Dymunwyd yn dda hefyd i Mrs Ann Evans a Mrs Irene Roberts, fe'u anrhegwyd hwy ar ran yr ysgol a diolchwyd i'r ddwy am eu gwaith clodwiw dros y misoedd diwethaf.

Noson Rhieni Newydd. Cynhaliwyd noson i rieni'r plant meithrin a fydd yn cychwyn ym mis Medi ar nos Fawrth, Gorffennaf y 14eg. Braf oedd gweld cymaint o rieni yn bresennol. Treuliodd y plant bnawn yn yr ysgol a phob un ohonynt yn blant da. Bydd tri o ddisgyblion newydd yn cychwyn yn y dosbarth derbyn hefyd. Edrychwn ymlaen i'w gweld i gyd ym mis Medi.

Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ddydd Mercher, Medi yr 2il - pawb mewn gwisg ysgol, os gwelwch yn dda. Diolch unwaith eto am eich cydweithrediad.

Y CLWB 300. Enillwyr mis Mehefin oedd £30: Mrs H. Williams, 8 Croes y Waun; £20: Miss Siân Llwyd Jones, Pengamdda; £10: Mr a Mrs R. Parry, Ffridd Felan.

Enillwyr Gorffennaf oedd: £30: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £20: Mr F. Buckley, 4 Croes y Waun; £20: Mr D. Martin, Tegfan.

Enillwyr Awst oedd: £30: Megan Williams, 17 Tref Eilian; £20: Norman Williams, Llidiart Wen; £10: Clive James, Hafan, Caeathro.

LLWYDDIANNAU. Estynnwn ein llongyfarchiadau i bob un o'r pentref ar lwyddo yn y gwahanol arholiadau ysgol a choleg, a dod â llawenydd i'w teuluoedd. Hyderwn y byddwch yn camu ymlaen ac yn mwynhau y cam nesaf yn eich gyrfa.

Dymunwn yn dda i bob un, o'r ieuengaf i'r hynaf, fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol coleg neu swydd yn ystod tymor yr hydref.

GENEDIGAETHAU. Daeth babi newydd â hapusrwydd i nifer o deuluoedd yn ystod yr haf.

Ganwyd mab bychan i Joanne ac Idris, Fron Hyfryd, Harri Glyn, brawd bach i Alun a Dafydd.

Merch fach a anwyd i Ceri a Malcolm, Stad Bro Waun, Carri Ann, chwaer fach i Cadi. Wyres i Yvonne, Stad Bryn Golau a gor-wyres i Gwendoline a Dic Rowlands, Stad Bryn Golau.

Merch fach a anwyd hefyd i Jeanette ac Arron, Stad Bro Waun, Mari, chwaer fach i Mia, wyres i Carol Griffith, Stad

Bryn Golau a gor-wyres i Mrs Margaret Jones, Glasfryn Teras, Glyn Afon.

Daeth Mrs Laura Pioerce, Ty'n Twll, yn nain am yr eildro pan anwyd merch fach, Alys, i Ceri a'i mab, Gareth, chwaer fach i Elin.

Daeth John ac Irene Roberts, Pant Teg, yn daid a nain am y tro cyntaf ac maent wedi gwirioni ar eu hwyres fach, Miriam Siôn, merch fach i Gwen a'u mab, Rhodri Siôn.

Ychydig wythnosau yn ôl daeth Eurig a Gill Wyn yn daid a nain i wyres fach, a dyma nhw yn daid a nain am yr eildro, ŵyr bach yn awr, Math, mab bach i'w merch Bethan ac Ian.

Daeth Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn yn hen nain pan anwyd merch fach, Lois Gwilym, i'w hwyres Gwen a Steven, chwaer fach i Guto.

Daeth Carys ac Edgar Owen, Glyn Awel, yn nain a thaid i Now Ifan, mab bychan i'w merch, Gwenno ac Iwan Rhys. Gor-ŵyr i Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen.

Ganwyd wyres fach, Lois, i Rhian, Gorffwysfa, ac Emyr Evans, gor-wyres i Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, merch fach i Manon ac Alan a chwaer fach i Erin.

Dymunwn longyfarch y naw teulu ac estyn croeso mawr i'r rhai bach.

PRIODAS. Dymunwn yn dda i Charlene, Stad Tŷ Hen, ar ei phriodas ag Owain Rhys o Feddgelert. Maent wedi ymgartrefu ym Mhorthmadog.

Yn ystod yr haf priodwyd dwy o staff yr ysgol. Bydd ein prifathrawes, Miss Gwenan Dafydd, yn dod yn ôl yn Mrs Williams, a bydd Miss Morris yn dod yn ôl yn Mrs Morris Jones.

Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i'r ddwy ohonoch. PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Peter a Janet Greasley, Pen-y-Berth, Stad Pant y Waun, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Ffion Williams, Stad Tŷ Hen, ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol.

Bu dwy o'r pentref yn dathlu cyrraedd eu pen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Winnie Evans, Lleifior, ar gyrraedd yr oedran teg, ac hefyd i Mrs Betty Hughes, Collfryn, chithau hefyd yn dathlu eich pen-blwydd arbennig. Mac'n dipyn o amser tydi?

Dymuna Mrs Hughes ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cyfarchion, cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur arbennig yma.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Marian Jones, 1 Teras



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dawis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Eilian, adref o'r ysbyty wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yno. Hefyd, mae'n dda gweld Mrs Menna McDaid, Lloches, yn gwella ac yn mentro allan wedi iddi dderbyn llawdriniaeth mewn ysbyty ym Manceinion ac yna cyfnod i ddod ati ei hun yn Ysbyty Gwynedd.

Wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd daeth Paul Evans, Rhoslynwyl adref a dymunwn yn dda iddo yn ei driniaeth.

FFLIW Y MOCH. Bu rhai o'r pentref yn sâl gyda symptomau o'r fflw moch. Gobeithio'n wir eich bod wedi gwella ac wedi cael mwynhau ychydig o'r gwyliau.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Geraint Thomas a theulu Cae Glas yn eu profedigaeth o golli tad Geraint yn ddiweddar. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at ei fam, Mrs Eryl Thomas, Nantlle, cyn brifathrawes yr ysgol, yn ei cholled drist o golli ei phriod.

Collwyd Mr Ieuan Hughes, un parod ei sgwrs a oedd wedi ymgartrefu yma yn y Waun, yn Wernas, Stad Croes y Waun. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Nance ac a'i ddwy ferch, Nia ac Ilid, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Cyflwynodd Marek, ei wyres, deyrnged i taid ar ran yr wyrion a'r wyresau yn ystod y gwasanaeth yng Nghapel y Waun.

DIOLCH. Dymuna Nance, Nia, Ilid a theulu y diweddar Richard Ieuan Hughes, Wernas, 5 Croes y Waun, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt ar golli Priod, Tad a Thaid annwyl iawn. Diolch i Dr Crabtree a'r nyrsys am eu gofal. Casglwyd £1,400 i'w rannu rhwng Meddygfa Llys Meddyg, Penygroes a Gofal Pallative. Diolch i'r Parchedigion Gwenda Richards, Harri Parri, Megan Williams a William Lewis a'r organyddes, Catherine Jones. Diolch i Ann a Derek Thompson a'r genod yng Nghlwb Rhosgadfan am y lluniaeth a hefyd i Gwynfor Jones am ei wasanaeth parchus a thrylwyr.

NEWID AELWYD. Anfonwn cin cofion at Miss Katie Roberts, sydd wedi symud o Stad Tref Eilian ac wedi ymgartrefu hefo Dylan a Barbara yn y Felinheli. Dymunwn bob hapusrwydd i chi, Anti Katic.

Dymunwn yn dda hefyd i'r teuluoedd sydd wedi symud o'r Waun i ardal arall ac hefyd i'r teuluoedd sydd wedi dod i'r Waun i fyw. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma. **LLWYDDO PRAWF GYRRU.** Dymuna Nain Angla, Stad Bryn Golau, longyfarch ei wyres, Lesley, ar lwyddo yn ei phrawf gyrru - handi iawn i

fynd â hi ar negeseuon.

EISTEDDFOD Y BALA. Gwelsom lawer wyneb adnabyddus yn cystadlu ac yn llwyddiannus mewn deuawd, band, côr a pharti adrodd ar lwyfan yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr i chi. Roedd un nain yn falch o weld ei hŵyr yn dod yn fuddugol yn y gystadleuaeth unigol i offerynau chwyth dros 19 oed. Mae gennym aelod newydd o'r Orsedd yn y Waun. Derbyniwyd Meira Turner i'r Orsedd fore Gwener yn Eisteddfod. 'Meira' yw ei henw gorseddol.

SIOEAU AMAETHYDDOL. Llongyfarchiadau hefyd i bob un fu'n cystadlu, yn cymryd rhan ac yn llwyddiannus yn y gwahanol sioeau amaethyddol yn ystod yr haf.

DYMUNA Mandy Roberts ddiolch o galon i rieni ysgol Waunfawr am y rhodd a dderbyniodd wedi ei hymadawiad o'i swydd fel athrawes yn yr ysgol.

Dymunwn ddiolch i chi Miss Roberts am eich blynyddoedd o ofalu ac addysgu plant y pentref a phob dymuniad da a hapusrwydd ichi i'r dyfodol.

CLWB PÊL-DROED IEUENCTID. Cafodd y clwb ei noson gemau a gwobrwyo diwedd tymor ar gae y Ganolfan nos Iau, 18 Mehefin. Cafodd y tri thîm eu rhannu'n ddau i chwarae gêm gyfeillgar cyn i bob aelod dderbyn ei dlws am y tymor 2008/09. Cafodd tri o chwaraewyr y tîm dan 11 oed dlws ychwanegol hefyd: prif sgoriwr- Dafydd M. Rowlands; chwaraewr wedi amgen fwyaf - Cian McDermot; chwaraewr y chwaraewyr - Luke Davies.

Ar ôl cyflwyno'r tlysau cafwyd adloniant gan y rheolwyr mewn gêm bêl-droed rhwng y rheolwyr newydd a'r hen rai - rhai ohonynt wedi gwisgo fel tylwyth teg!

Hoffwn ddiolch i Jason Anderson ac Iwan Davies (o dan 7), Kevin Morgan a Martin Jones (dan 9) ac hefyd Gareth Williams (dan 11). Hoffwn ddiolch yn arbennig hefyd i Iwan a Hefin Daniels, Dewi Clark a Huw Griffith am fynychu'n rholaidd i roi cymorth gyda hyfforddi'r timau. Croesawn hyfforddwyr newydd ifanc bob tro, maent yn hanfodol i barhad a dyfodol llwyddiannus y clwb.

GRAHAM ROWLANDS,
YSGRIFENNYDD

GWOBWR AM GYFRANIAD ARUTHROL. Yn ddiweddar se gafodd Mr Geraint Williams, sydd yn frodor o Gaernarfon, wobwr 'The Ted Wragg Award for Lifetime Achievement in Wales'. Mac Mr Williams wedi mwynhau gyrfa o 30 mlynedd fel prifathro, yr 11 mlynedd

diwethaf yn Ysgol Cynfran, Llysfaen, Bae Colwyn. Mae wedi gweithio'n galed i greu ysgol hapus lle mae gan bawb ran i'w chwarae ac mae'n gyson yn ceisio gwella amgylchiadau ac addysg y plant a sicrhau cefnogaeth i'r athrawon dan ei ofal.

Mr Mr Williams yn fab i'r diweddar Mr a Mrs E. Emrys Williams, 37 Stryd yr Hendre, Caernarfon. Mae'n gyn-ddisgybl Ysgol Syr Hugh Owen ac fe'i hyfforddwyd yn y Coleg Normal Bangor lle graddiodd fel Baglor mewn Addysg.

Fel cyn chwaraewr pêl-droed lled-broffesiynol mae'n parhau i fod yn hoff iawn o chwaraeon. Mae'n chwarae pêl-droed yn rheolaidd ac mae o a'i wraig yn aelodau o Dîm Dawnsyr Gwerin Sir Conwy.

Mae'n wŷr i Ann Dwyrws ac yn dad i Gwenann Haf ac Owain Llŷr, yn Henllan, Dinbych. Mab yng nghyfraith Mrs Doris Roberts a'r diweddar Elfed Wyn Roberts, Dwyrws.

TÎM PÊLRWYD YSGOL WAUNFAWR



Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672026 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

I Geraint Williams ar ei ymddeoliad

I'm cof daw llais y Cofi,
tenau oedd, ein capten ni
oedd â dawn, arweinydd da
un agos at ei hogia'.
O'i chwys ni aethom ar chwâl
ei 'armi' tîm y Normal.

Yn ei waed mae'n Ysgol ni,
o'i fodd rhoes yrfa iddi;
yn wir, ffrind, er geiriau ffraeth
yn goblyn am ddisgyblaeth.
Hwn yw'r tyst, gwrandawr teg
a'i haeolion i'n delyneg.
Rhoes ei ble lais dros ei blant
i haeddu blasu'r llwyddiant.

Cychod yw plant yn cychwyn -
eu hantur
drwy wyntoedd o ddychryn.
Cyn hir i'r tir ef a'u tyn
i'w harbwr trwy eu derbyn.

Eu hannog i 'mestyn ffiniau
- â graen
dyna'r grefft drwy'r geiriau;
Un bril am feithrin sgiliau,
yna dysg yn uno dau.

I Ysgol, nid arholiad - yn unig
yw mein datblygiad.
Mae doniau sy'n hau yr had
â'n wreiddyn i wareiddiad.

I'w goflaid rhoddodd gyfle,
agor drws wnaeth Ger o Dre.

RICHARD LLOYD JONES
(FFRIND COLEG)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

Y GANOLFAN. Bydd Cyfarfod Blynnyddol o bwyllgor Canolfan Cymdeithasol Llanberis yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan am saith o'r gloch yr hwyr ar Nos Fawrth, 15ed Medi. Mae gan pob enwad yn y pentref hawl i gael cynrychiolydd ar y pwyllgor. Erfyniwn am eich presenoldeb.

HERIO'R WYDDFA. Mae dringo neu redeg yr Wyddfa yn her a sialens o'r mwyaf i unrhyw un ohonom. Yn ystod y blynnyddoedd diweddar gwelwyd cynnydd syfrdanol yn y nifer sydd yn dringo ein mynydd uchaf gyda'r gobaith o godi arian at wahanol achosion elusennol. Derbyniodd Valerie Prydderch, o Lanberis, yr her pan glywodd fod yna elusen am gludo sawl un i gopa'r mynydd ar yr un diwrnod. Derbyniodd mintai deilwng o hogiau ifainc y fro y sialens, gan gynnwys gweithwyr Steel Scaffolding Deiniolen, a'i chario ar eu hysgwyddau, bron heb saib, i gopa'r hen fynydd mewn dwy awr a phumdeg a saith munud. Camp gwbl anhygoel.

Cwblhawyd y daith yng nghanol gwynt a glaw y Sadwrn cyntaf o Orffennaf ac fe'i codwyd uwchben y copa yn fuddugoliaethus. Cludwyd Valerie mewn cadair bwrpasol a oedd wedi cael ei haddasu gan y cwmni 'Byw Bywyd' o Gaerwen, cwmni sydd yn arbenigo mewn darparu offer ar gyfer yr anabl. Derbyniwyd cymorth hefyd ar gyfer y fenter gan Steel Scaffolding, DMM Engineering, Dŵr Cerist a Rheilffordd yr Wyddfa. Dymuna Valerie ddiolch yn bennaf i'r cludwyr ac i bawb a fu'n gysylltiedig â'r ymdrech am eu cymorth a'u haelioni.

Casglwyd dros £700.00 tuag at Multiple Sclerosis, Cymru.

DIOLCH. Dymuna Stanley Jones, 60 Dol Elidir, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac ymweliadau yn ystod ei arhosiad diweddar yn Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig i staff Ward Dulas am bob gofal.

DIOLCH. Dymuna Mrs June Ward ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am yr anrhegion, pres, blodau, cardiau a dau drip i Lundain, ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Hefyd dymuna'r teulu longyfarch Jason ar ennill Gradd B.A. ym Mhrifysgol Bangor, a llongyfarch Esther ac yntau ar enedigaeth merch fach, Grace June, ar Fehefin 4ydd. Presant pen-blwydd sbesial i Nain!

LLONGYFARCHIADAU i holl ieuenctid y pentref sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau TGAU, AS a Lefel A dros yr haf. Llongyfarchiadau hefyd i bawb a lwyddodd yn eu harholiadau Gradd ac amrywiol gyrsiau eraill yn y prifysgolion a'r colegau. Dymuniadau gorau i bob un ohonynt i'r dyfodol.

GRADD. Llongyfarchiadau i Jason, 5 Maes Eilian, ar ennill ei radd 2:1 (anrh) ym Mhrifysgol Bangor. Pob lwc i'r dyfodol.

GENI. Llongyfarchiadau i Esther, Jason a'r teulu ar enedigaeth merch fach, Grace June, ar y 4ydd o Fehefin. Wyres arall i Nain Lorraine, a Nain Rhiannon a Taid Glyn, a goryres i Nain June. Pob hapusrwydd i'r teulu oll.

DIOLCH. Dymuna Catrina Gwyndaf, Stryd Turner, Llanberis ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Morgan ar ei enedigaeth.



Cofiwch gefnogi hynny fedrwrch o hysbysebwy Eco'r Wyddfa

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Rhandir, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed mab bychan i Catrin a'i phriod, Rhys, ar Awst 6ed.

COFION. Ni fu Norman Williams, Godre'r Coed, yn dda ei iechyd yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddo am adferiad buan yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

YR EGLWYS

RESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Yn y cyfarfod nos Iau, Gorffennaf 16eg, estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd, Jennie Angharad Roberts, Ffrwd Madog. Yn dilyn defosiwn dan ei harweiniad, rhoddodd groeso cynnes i ŵr gwadd y noson, sef Elfyn Thomas o Gwmni Seren Arian. Cafwyd noson lawn bwrlwm gyda'r siaradwr gwadd yn ein tywys drwy hanes sefydlu a datblygiad y cwmni bysiau dan y teitl 'Straeon Seren Arian'. Roedd pawb yn llwyr edmygu yr hanesion unigryw a'r dull o draddodi a roddodd bleser pur

i'r gwrandawyr. Diolchwyd i Elfyn Thomas gan y cadeirydd ac yn dilyn cafwyd amser difyr gyda'r aelodau yn parhau i ymddiddori a holi ymhellach parthed llawer o sylwadau a wnaed. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Medi 10fed, pryd y disgwylir Gwilym Evans, Llanberis i roi sgwrs. Y cadeirydd fydd Verna Jones, Meillionen.

OEDFAON MEDI

6: am 5.30: Parch Eifion W. Williams, Llanfairfechan

13: am 5.30: Parch Trefor Jones, Caernarfon

20: am 2.00: Parch John Pritchard, Llanberis

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

27: am 5.30: Mr John H. Hughes, Llanberis.

PARTI PENTREF

BRYNREFAIL. Bydd diwrnod o ddathlu pen-blwydd Caban yn bump oed ddydd Sadwrn Medi 5ed. Mae llawer o baratoi wedi mynd ymlaen a chynhelir pob math o weithgareddau i bob oed, rhwng 11 y bore a 6 yr hwyr.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275



Ffarwelio â Jen Roberts

HOFFAI Jen Roberts ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion A dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad cynnar o Ysgol Cwm y Glo ar ddiwedd Tymor yr Haf. Hefyd fe hoffai'r staff i gyd ddiolch yn fawr i Nia Oliver am ei gwaith da tra'n Brifathrawes Mewn Gofal o'r ysgol.

LLONGYFARCHIADAU i Chelsey, 7 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

YMDDEOLIAD. Ddiwedd y tymor diwethaf roeddem yn ffarwelio â Mrs Jen Roberts (Mrs

Roberts, Bethel) oedd wedi bod yn athrawes yn yr ysgol ers pymtheng mlynedd. Rydym fel ardal yn diolch i Mrs Roberts am ei gwaith clodwiw i'r ysgol ac i'r gymuned, gan ddymuno pob dymuniad da iddi yn y dyfodol. Hefyd, diolch i Mrs Nia Oliver, un o athrawesau'r ysgol am ei gwaith clodwiw hithau a'i chymwynasau i'r ysgol a'r gymuned tra bu'n Bennaeth Mewn Gofal. Ddechrau'r tymor newydd bydd prifathro newydd yn dechrau yn yr ysgol, sef Mr Garym Jackson. Croeso cynnes iddo atom i'r Cwm.

DEINIOLLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



Ar ddiwedd tymor yr Ysgol Sul, ar ôl blynyddoedd o wasanaeth fel Arweinydd, penderfynodd Anti Nia gamu i lawr. Hoffai'r plant ddiolch o galon iddi am ei holl waith caled dros y blynyddoedd a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

DYMUNA Alun Evans, 32 New Street, ddiolch i'r plant, teulu a ffrindiau am y rhoddion a'r cardiau ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 oed.

MERCHED Y WAWR. Bydd cyfarfod cyntaf tymor 2009/10 yn cael ei gynnal yn Ty^ Elidir ar nos Lun, 21 Medi am 7.30. Edrychir ymlaen am gael gwrandao ar y gw^r gwadd, Russell Jones, o'r rhaglen boblogaidd 'Byw yn yr Ardd'.

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno â'r gangen a bydd rhaglen dda am y tymor newydd yn eich disgwyl. Rhowch y dyddiad i lawr yn eich dyddiadur.

MARIE CURIE. Casglwyd £75 tuag at Ofal Cancr yn Hafod Olau a'r Bwthyn yn ystod mis Mehefin. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni.

YSGOL SUL. Mi fydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar 13 Medi am 10.15 y bore yng Nghapel Ebenezer. Croeso cynnes i wynebau hen a newydd.

LLONGYFARCHIADAU i Lindsay Vaughan, Ffordd Deiniollen, a band y pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala cleni.

LLONGYFARCHIADAU i bobl ifanc y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau

ysgol a choleg yn ddiweddar. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant iddynt yn y dyfodol. DYMUNIADAU GORAU. Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i bawb a fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar.

POB: LWC. Dymuniadau gorau i blant y pentref sydd yn cychwyn yn Ysgol 'fawr' Brynrefail am y tro cyntaf y mis hwn ac hefyd i'r plant lleiaf a fydd yn cychwyn yn Ysgol Gwaun Gynfi.

MARWOLAETH. Fore Sadwrn, 8 Awst, bu fawr Mrs Eunice Wynne, yn 90 mlwydd oed. Roedd Mrs Wynne yn weddw i'r Parch John Price Wynne a fu'n weinidog ar Eglwys Cefn y Waun a Dinorwig. Roedd yn fam i Mrs Nia Lewis, Llangefni, ac i Mrs Mari Evans, Castell Newydd Emlyn, hefyd i'r ddiweddar Eleri Wyn Jones ac i'r diweddar Eirug Wyn.

Bu Mrs Wynne yn gweithio yn Llythyrdy Deiniollen am flynyddoedd ac roedd yn uchel ei pharch gan bawb a'i hadnabu. Roedd hefyd yn wraig gweinidog ddelfrydol, yn ddoeth ei chyngor ac yn foneddigaidd bob amser.

*Yn feunyddiol fonheddig
A mwyn ei threm yn ei thrig.*

Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Nia, Mari, Gwenda a'r holl deulu, yn cynnwys 2 o wyrion a 5 o wyresau. Roedd Mrs Wynne hefyd yn hen nain i bedwar.

CD NEWYDD GAN DDAU GERDDOR LLEOL

Ar Fedi 19 yn Galeri, Caernarfon, bydd dathliad lansiad CD newydd o gerddoriaeth werin gan ddau gerddor lleol. Prosiect ar y cyd rhwng Cass Meurig o Gwm-y-Glo a Nial Cain o Ddinorwig ydy 'Deuawd', sydd newydd ei ryddhau ar label Fflach : tradd. Daw'r hen a'r newydd ynghyd yn 'Deuawd', sydd yn cyfuno cerddoriaeth draddodiadol Gymreig a chyfansoddiadau newydd. Ceir perlau o hen ganeuon, alawon dawns sionc a thonau araf, swynol, rhai ohonynt gyda phenillion wedi eu gosod arnynt. Clywir canu ffidil llawn mynegiant, swm hynafol y crwth a chyfeiliant gitâr sydd weithiau'n fyfyrion, weithiau yn cyffroi - a chlymir pob dim at ei gilydd gyda llais cynnes Cass.

Yn ei geiriau eu hun, 'Dan ni'n ceisio creu awyrgylch agos atoch, sgwrs rhwng hen ffrindiau. Mae ein halawon a'n cyfansoddiadau yn deillio o brydferthwch amrwd y mynyddoedd o'n cwmpas a chynhesrwydd cerddoriaeth yr aelwyd. Maent yn parchu'r traddodiad ac yn dod o'r galon.'

Mae Cass Meurig yn adnabyddus fel ffidlwraig ac fel un o brif chwaraewyr y crwth, offeryn cenedlaethol mwyaf unigryw Cymru. Mae hi'n teithio'n rhyngwladol fel unawdydd ac wedi chwarae gyda'r bandiau Pigyn Clust a Fernhill. Ym 2004 rhyddhaodd 'Crwth' ar label Fflach : tradd, albwm cynta'r byd o gerddoriaeth ar gyfer crwth unawd. Mae bellach yn byw yng Nghwm-y-Glo gyda'i gŵr Graham Thomas a'u tri o blant bach.

Gitarydd a ffidlwyr o Ddeiniollen yn wreiddiol ydy Nial Cain. Gwneuthurwr a thrwsur ffidlau wrth ei

alwedigaeth, roedd yn un o aelodau gwreiddiol Flop Eared Mule, ddatblygodd wedyn yn The Old Rope String Band tra yn byw yn ardal Newcastle upon Tyne. Symudodd yn ôl i Ddyffryn Peris ddeg mlynedd yn ôl gyda'i wraig a'u dau fab ac mae bellach yn chwarae gyda'r band twmpath Aderyn Prin.

Mae Cass a Nial hefyd yn trefnu Gŵyl Ffidil yr Wyddfa yn Nant Peris bob mis Mehefin ac yn rhedeg Clwb Ffidil yr Wyddfa. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fawrth yn ystod tymor yr ysgol yn y Caban, Brynrefail, ac yn cynnig gwersi ffidil ar gyfer pob safon. Ar hyn o bryd mae dosbarth dechreuwyr i blant, dosbarth dechreuwyr i oedolion a dosbarth profiadol ar gyfer unrhyw oedran. Mae croeso i aelodau newydd; ffoniwch 01286 871042 am fwy o wybodaeth.

Dewch yn llu i'r lansiad yn Galeri ar Fedi 19eg, 7.30 yh; yna bydd Cass a Nial yn perfformio eu cerddoriaeth gyda eitemau cerddorol gan Pigyn Clust ac eraill - ac mae am ddim!

Dilys

Trin Gwallt Teithiol

Trin gwallt merched,
dynion a phlant
yn eich cartref



Symudol:

07919 897898

Ffôn:

(01286) 871869

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL Medi 20fed

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU Hydref 1af

Dyddiad Gosod

SUL Medi 27ain, 5 y pŵn Sefydliad Coffa Llanrug

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: (01286) 650218

CYNGOR CYMUNED LLANDEINIOLLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 7ed o Orffennaf. Offrymwyd y weddi safonol gan y Clerc.

Llwyddo yng Ngwynedd. Croesawyd Miss Eluned Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr y Caban, Brynrefail gan Miss Phyllis Ellis, gan ganmol y gwaith arbennig a wnaed ganddi wrth sefydlu a rhedeg busnes llwyddiannus yn y Caban. Crynodeb o gyflwyniad Miss Davies ar y cynllun:

Ei bwrpas yw datblygu hyder ym mysg pobl ardaloedd gwledig fel a wnaed gan CCLl trwy gyhoeddi *Troedio Llwybrau Llanddeiniolen*. Hel gwybodaeth a'i rannu i'r cyhoedd. Gofynnodd Elspeth Mitcheson faint o arian sydd ar gael i'r cynllun - ateb £416,000.

Dywedodd Miss Davies ei bod yn awyddus i gysylltu â phob mudiad yn yr ardal. Addawodd y Clerc gopi iddi o gyfeiriadau'r cymdeithasau y mae'r Cyngor yn cyfrannu atynt yn flynyddol.

Materion o'r cofnodion

Troedio Llwybrau Llanddeiniolen. Cyflwynwyd llythyr Gareth Roberts yn dweud ei fod am ddosbarthu mapiau. Dywedodd Elspeth Mitcheson ei bod yn trefnu copiau i bob llyfrgell yn y rhan yma o Wynedd. Cyflwynwyd llythyr Mr Eifion Jones, Pennaeth, Ysgol Brynrefail, Llanrug, yn diolch am y gwahoddiad i'r lansiad ac yn llongyfarch Gareth a'r cyngor ar y cyhoeddiad o fap a hanesion yr ardal.

Ystâd Bryn Tirion. Dywedodd Mrs Larsen bod Gwynedd wedi addo llinellau melyn ar y ffordd at yr ystâd - atgoffa Gwynedd. Hefyd, gofyn am arafu ceir trwy'r pentref er diogelwch. *Llwybr diogel i'r ysgol.* Cyfeiriodd Pat Jones at lwybr Gwynedd o Frynrefail i ysgol Cwm y Glo. Ar ôl ymgyrch aflwyddiannus y Cyngor i osod croesfan ddiogel o Drem Eilian i'r pentref a'r cae chwarae mae llwybr newydd Gwynedd o'r ysgol yn troi i mewn i waelod y pentref sy'n golygu bod plant Trem Eilian yn gorfod croesi'r A4244 ddwywaith! - adroddiad i Wynedd.

Rhoddion i elusennau. Dywedodd Huw P. Hughes nad bwriad y Cyngor oedd gofyn i bob mudiad gyflwyno prosiect neu weithgaredd arbennig eleni. Penderfynwyd cithrio'r canlynol:

Eisteddfodau, Ncuaddau pentref, Eco'r Wyddfa a Llais Ogwan.

Safle Ail-gylchu, Rhiwlas. Cadarnhad Gwynedd (19eg o Ffebrin, deunaw niwrnod yn ôl) y bydd y gwaith tacluso yn

dechrau yn ystod y dyddiau nesaf.

Gwaith carthffosiaeth Trem Eilian. Llythyr Gwynedd yn dweud bod y gwaith wedi ei ohirio ac nad oes dyddiad pendant gan y contractwyr ar gyfer cau'r ffordd - llythyr i 'Dŵr Cymru' i ofyn pam, gan y bydd plant Trem Eilian yn gorfod cerdded trwy'r budreddi hyd nes y bydd y gwelliannau wedi eu gwneud.

Coedwig Blaen y Cae. Ateb Gwynedd nad oeddynt yn ymwybodol bod UPM wedi ennill eu hapel i adeiladu mynedfa i mewn i'r goedwig. Byddant yn cyfarfod UPM i drafod manau pasio a chyflwr y ffyrdd y byddant yn eu defnyddio. Cawn wybod canlyniad hynny.

20 mya Brynrefail. Bydd Gwynedd yn gosod mesurydd cyflymder yno.

50 mya Beran i Ty Mawr. Ni fydd Gwynedd yn ystyried hyn, yn ôl eu dadl, nid yw'r rhan yma yn debyg i weddill y ffordd sydd wedi ei chyfyngu. Llythyr eto yn gofyn am eglurhad beth yw'r gwahaniaeth rhwng mynedfeydd a chroesffyrdd y rhan yma i'w cymharu â'r rhan o Beran i Gwm y Glo?

Materion Priffyrdd, Brynrefail. Cyflwynwyd adroddiad o ddiffygion ffyrdd i Pat Jones gan aelod o'r cyhoedd a danfonwyd y rhestr i Wynedd. Dyma'r atebion:

1. Gwaith tacluso wedi ei wneud - ar y ffordd rhwng Trem Eilian a'r A4244 ac at y Pentref.
2. Lleoliadau i'w harchwilio a gwaith i'w drefnu:
* Dŵr ar y groesfan newydd A4244 a A4086
* Wal y cae chwarae
* Wal o bont Injan i Ben Llyn
* Ymylon Trem Eilian
3. Gordyfiant o bont Brynrefail at Tai Minffordd. Bydd y gang Gymunedol yn ymdrin â'r rhain yn fuan.
4. Arwydd tai Ffrwd Madog, ar raglen waith Gwynedd.
5. Wal ger troad cyntaf i Frynrefail - wal breifat yw hon.

Gohebiacthau a materion eraill.

Gorchymyn cau llwybr 127 o'r Allt Ddu tra yn ffilmio Clash of the Titans yn Chwael Dinorwig. Yng nghysgod hyn derbyniodd 1st Hydro £50,000 am ddefnyddio eu tir a'u bwriad yw rhannu'r arian ar gyfer grantiau cymunedol. Penderfynwyd gofyn iddynt a fuasent yn ystyried cyfrannu at wella cyflwr llwybrau'r gymuned yn enwedig y rhai a amlyga'r map.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd eu cyfarfod ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Materion Rhiwlas a godwyd gan Hefin Williams:

Stryd Ucha - Gwynedd wedi gwneud patch bach o darmac o flaen dau dy yn lle gwneud y stryd gyfan - cwyn i Wynedd. Blwch ffôn - poster uniaith Saesneg gan BT ar hwn - llythyr cwyn i fynnu poster dwyieithog. Mynediad cyhoeddus wedi ei gau - rhwng Chapel House a Hafan Olau. Cyflwynodd gynllun o'r safle i'w anfon i Wynedd.

Gwteri wedi blocio ger Bronant a ger Hafan Olau, cynllun o'r safle yma hefyd i Wynedd.

Angen atgoffa Gwynedd o'r angen i lanhau ac ail lythrennu'r cerrig coffa ym mynwent Macpella.

Elspeth Mitcheson: angen atgoffa Gwynedd o'u haddewid am finiau baw cwn.

Bydd y llwybr diogel i'r ysgol at y tai anghywir, i arbed amser bydd hi'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r Cyngor Sir. Gwilym Williams - angen i Manweb dacluso'r draen ger Libanus, Lôn Bost, Clwt y Bont.

Cynllunio

Snowdon View, Caravan Park - Cais i ail-leoli 4 carafan statig, lleoli 13 carafan statig ychwanegol, gwaith tirweddu ynghyd a chadw'r sied storio. Gwrthwynebwyd y cais yma am y rhesymau canlynol:

Nid yw'r ddarpariaeth carthffosiaeth yn ddigonol i'r aneddau presennol. Mae tai Minffordd yn ddibynnol ar septic tanks oherwydd hyn, ni fuasai'n deg felly, caniatu 13 cysylltiad newydd ar draul trigolion presennol. Mae'r Bwrdd Dwr wedi ceisio gwella'r sefyllfa lle mae carthffosiaeth yn llifo i'r lôn ger Trem Eilian ond hyd yn hyn wedi methu.

Mae mynedfa Snowdon View yn beryglus o agos i droad yn yr A4244 i'r dde wrth ddod allan oddi yno. Buasai mwy o garafanwyr yn dwysau'r broblem.

Nid yw lled y fynedfa yn ddigonol hyd yn oed i'r drafndiaeth bresennol.

Llwybrau

113, Cefn Gwyn i Ty'n 'Rallt - angen torri drain.


3, Bethel - gât tua 100 llath i mewn i'r llwybr wedi ei chau. 123, Deiniolen - amhosibl ei gerdded.

Mater ychwanegol. Cyfeiriodd y Clerc at y gwaith o ail-wynebu ffordd Nant y Garth a wnaed yn ddiweddar gan Y Brodyr Hogan, Bangor. Ychydig iawn o ddaliad trafndiaeth a achoswyd, rodd y rheolaeth yn ardderchog a symudwyd y peiriannau a'r goleuadau oddi yno dros benwythnosau. Penderfynwyd adrodd ar hyn i Wynedd a gofyn iddynt ddiolch i Mri Hogan ar ran y cyhoedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth y 1af o Fedi.

Adroddiadau o'r Cyngorau Cymuned.

Gofynnir yn garedig i'r rhai sy'n gyfrifol am anfon adroddiadau o weithgareddau'r gwahanol gynghorau cymuned lleol, i gyfyngu'r maint i ddim mwy na hanner tudalen. Os bydd yr adroddiadau yn hwy na hynny, yna byddant yn cael eu cwtogi. Amlinelliaid o drafodaethau a phenderfyniadau'r cynghorau sydd ei angen, nid copïau llawn o'r holl gofnodion.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

UNWAITH ETO 'NGHYMRU ANNWYL

Dyna fu hanes un o hogia Llanberis dros yr haf. Un o hogia Victoria Terrace oedd Kevin Davies ond, ers 1996, mae wedi ymgartrefu yn Templestone, rhan o ddinas Melbourne yn Awstralia. Mae'n briod â Rosemary, cyn athrawes ond sydd erbyn hyn yn rheolwr 'department store' yn y ddinas. Mae ganddo ddwy ferch, Georgina a Laura.

Yn 52 oed, mae Kevin erbyn hyn yn gyfarwyddwr i gwmni Toyworld.

Fe gofir Kevin am ei ddoniau ym myd y campau, yn enwedig athletau a pêl-droed, a ddatblygodd yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Brynrefail. Roedd ganddo record anhygoel yng ngwahanol oeddrannau athletau ysgolion Cymru. Fe enillodd

bencampwriaeth ysgolion Cymru yn y 100m a'r 200m o 1970 i 1975. Yn naturiol cafodd wisgo y 'vest' ryngwladol ar sawl achlysur. Beth tybed mae'n feddwl o gampau Usein Bolt?

Ar y maes pêl-droed enillodd gapiau i dîm -15 Ysgolion Cymru yn erbyn Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon. Yn y maes hwn roedd ei gyflymdra yn gryn fantais. Chwaraeodd i dimau Llanberis, Dyffryn Nantlle a Bangor cyn arwyddo i glwb Wrecsam. Yn amlwg, roedd wedi meithrin rhai o ddoniau ei dad, Emlyn Davies, sydd ar fin dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Yn ôl un o ddilynwyr mwyaf selog a phraff y Darans, sef y diweddar Barch. Herbert Thomas, Emlyn oedd un o chwaraewyr gorau y



Kevin a'i wraig Rosemary yn heulwen Melbourne.

Darans yn eu hanes.

Wedi gadael yr Ysgol aeth Kevin i astudio Ymarfer Corff i Goleg Borough Road, Llundain, un o brif golegau chwaraeon Prydain. Ond nid addysg a ddenodd ei fryd ond byd busnes. Gweithiodd i gwmnïau Medicare, Sainsbury's ac yna Toys R Us. Yn sgil y cwmni olaf y symudodd i Awstralia fel

Cyfarwyddwr Masnach y cwmni a sefydlu 35 o siopau newydd yno.

Mae'n anelu i 'ddod adref' pob rhyw ddwy flynedd. Braf yw gallu croniclo hanes bachgen lleol sy'n llwyddo mor bell o adref. Os oes mwy o straeon tebyg yn llechu gennych, ddarllenwyr yr Eco, gadewch i mi wybod.

TAITH GERDDED - COFIO'R CAU



Dafydd Whiteside Thomas yn arwain un o'r teithiau cerdded drwy hen Chwael Dinorwig.

CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Croeso cynnes i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa i dymor newydd Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï. O fis Medi hyd fis Mawrth 2010, ar drydedd nos Fawrth y mis, bydd chwech o gyfarfodydd gyda darlithiau neu sgysiau diddorol ar amryw agweddau o lenyddiaeth. Eleni, Annes Glynn yw Cadeirydd y Cylch, a Harri Parri yn Is-Gadeirydd.

Yn y cyfarfod cyntaf, nos Fawrth, Medi 15, y siaradwr gwadd yw Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru, Cefin Roberts. Er ei fod yn adnabyddus fel cyd-scydydd Ysgol Glanac'hwy, ac fel enillydd Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2003, am y Theatr Genedlaethol y bydd yn sôn, a chawn gipolwg hefyd ar ddrama newydd Meic Povey, 'Tyncei yw'r llcud heno', y cynhyrchiad a fydd yn mynd

ar daith yn yr hydref.

Cynhelir cyfarfodydd y Cylch Llenyddol yn Stafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 o'r gloch. I gael rhaglen y tymor, ffoniwch 01286 674478 neu e-bostwch llinosc@btopenworld.com

Mae'r tâl aelodaeth am y flwyddyn yn £6.00, neu £1.50 am ddarlith achlysurol. Bydd y Cylch yn falch iawn o gael croesawu aelodau newydd.

TLWS 20/20 YR ECO?

Yn ystod yr haf enillais 'gap' criced arall i ychwanegu at un Cymru. Roeddwn wedi bod yn dyfarnu mewn cystadleuaeth 20/20 i wledydd Ewrop draw yng Ngharmel, Sir y Fflint. Daeth timau o Fflandrys,

Ynyssoedd y Sianel, Rwsia, Hwngari, Bwlgaria, Croatia, Lloegr a Chymru i gystadlu. Cafwyd cystadlu brwd, a sylwi fod y cystadlaethau hyn yn cymryd lle ledled Ewrop drwy fisoedd yr haf.

Ar y dydd Gwener - diwrnod rhydd - roedd Hwngari wedi trefnu gêm yn erbyn Bwlgaria ar faes Ysgol Foncdd Rhuthun. Gan fod dau o dim Hwngari wedi gorfod dychwelyd gartref cefais 'wahoddiad' i chwarae. Cytunais a sgorio 8 rhediad a chymryd un daliad fel cyfraniad i'n buddugoliaeth o un wiced oddi ar y belen olaf. Am gêm! Cyflwynwyd crys cenedlaethol criced Hwngari i mi, hefyd.

Does dim amheuaeth fod y ffurf yma o'r gêm wedi cydio'r dychymyg. Meddyliais am fy erthygl ddiweddar am ddiffyg cyfleon criced ym Mro'r Eco. Beth am gystadleuaeth 20/20 rhwng y pentrefi meddaf wrthyf fy hun. Yn sicr mae digon o chwaraewyr o gwmpas. Torri tir newydd yn yr ardal. Beth yw eich barn? Gadewch i mi wybod.

CLWB Mynydda CYMRU

Ers 1979 mae Clwb Mynydda Cymru - clwb mynydda mwyaf Cymru, wedi bodoli er mwyn hyrwyddo mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r aelodaeth o bob oed ac ar draws Cymru. Mae nifer o ddysgwyr Cymraeg wedi meistrolu'r iaith trwy gerdded gyda'r Clwb. Trefnir teithiau'r Clwb trwy Gymru, - De, Canolbarth a Gogledd (ac anturiaethau y tu allan i Gymru). Gellir mynd am dro ar y Sadwrn, y Sul neu yn ystod yr wythnos! Er mwyn i fwy o'u cyd Gymru fwynhau pleserau 'mynydda', mae'r Clwb wedi trefnu nifer o sesiynau 'blasu' trwy Gymru ar ddydd Sadwrn 10 Hydref: **Gogledd-orllewin Cymru:** Yr Wyddfa a'i chriw. Cwrdd am 9.15 ar gyfer 9.30. Maes parcio Pen y Pas (Cyf grid SH647 557) Tâl parcio. Enwau i un o'r arweinyddion erbyn nos Wener 9fed Hydref - George Jones 01286 672376 jones@penygarth.freeserve.co.uk neu Maldwyn Roberts, 01286 880997, maldwynperis@tiscali.co.uk.

Bydd angen cysylltu â'r arweinydd/ion ymlaen llaw. Cofiwch ddod â bwyd a diod a gwisgo dillad ac esgidiau addas. Darperir offer ar gyfer sgramblo, dringo a'r bowlro.

Gellir darganfod llawer mwy am weithgareddau Clwb Mynydda Cymru trwy archwilio'r Wefan:

www.clwbmynyddacymru.co.uk

Cofiwch fentro, cyflwyno eich hunan i'r arweinydd, mwynhau eich hunan- ac efallai ymaelodi â Chlwb Mynydda Cymru wcdyn.

CHWARAEON

TROI DATBLYGIAD YN FFAITH

Yn ddiweddar bŵm yn edrych ar ôl-rifynnau'r *Eco* i weld sut roeddwn wedi croesawu'r tymor pêl-droed ar lefel lleol dros y blynyddoedd. Y gair sy'n dod i'r meddwl yw **DATBLYGIAD**. Coeliwch neu beidio Llanberis a Llanrug yn y Caernarfon and District oedd yr unig dimau pan ddechreuais i fel Golygydd Chwaraeon. Daeth tân siafins yn ystod cyfnod cyntaf Bethel, yna datblygiad rhyfeddol Deiniolen – eto am gyfnod – a'r un modd Waunfawr, sydd wedi ail danio. Fawr ddim o pêl-droed ieuencid ar wahan i ambell gêm Ysgol Brynrefail.

Mor wahanol yw hi heddiw gyda Llanberis a Llanrug yn yr Alliance, Bethel yn y Gwynedd a'r Waunfawr yn ceisio ymuno â nhw.

Ond y datblygiad mwyaf yw safon y meysydd. Edrychaf ar erthygl am yr hynaws, ddiweddar Arfon Philips wrthi yn paratoi Maes Padarn. Mor wahanol yno heddiw i'r cae trwm o ddyddiau a fu. Yna Eithin Duon, mor wahanol i'r 'cae ar slant'. Y gwyneb da, a'r cyfleusterau gwych. Yr un yw'r stori erbyn hyn draw ym Methel. Gwyneb da ar y tir, cyfleusterau newid safonol iawn, a'r byrddau noddwyr yn adlewyrchu gwaith caled y pwyllgor a chefnogaeth barod. Arwydd yw hyn i mi yn y tri chlwb, hyd yn oed mewn cyfnod anodd, fod y blaenoriaethau yn rhai clodwiw.

A ddaw y datblygiad un cam ymhellach eleni? Sôn ydwyf am Fethel. Does dim amheuaeth bod y gallu yno i ymuno â'r dau frawd mawr y fro y tymor nesaf. Yn sicr yn y tymhorau diwethaf maent wedi dioddef o gael carfan fechan, ac yn sicr o'r pentyrru gemau ar ddiwedd tymor- arwydd o lwyddiant mewn cwpanau, ond hefyd trefniadaeth simsan trefnwyr gemau. O gryfhau canol cae yn amddiffynol, credaf y gall hogiau Bethel, drwy eu gallu ymosodol, fod yn agos at frig y gynghrair cleni. Yn sicr, mae Jamie Whitmore wedi dechrau'r tymor ar dân.

Mae timau ieuencid yr ardal wedi pentyrru tlysau yn ddiweddar mewn gwahanol dwrnau. Parhad y llwyddiant, a'r llwybr esmwyth o'r timau ieuencid i'r timau hŷn. Yn sicr, mae cyfnod cyffrous o'n blaenau yn lleol. Pob lwc i bob un ohonynt.

TLWS YR ECO 2009

Dyma'r ddau dîm ddaeth i'r brig yng Nghystadleuaeth Tlws yr Eco dan 9 eleni. Yr hen elynion o Lanrug a Bethel a welir ac eleni, i Fethel yr aeth y tlws.

Croesawyd yr oedran dan 11 i'r Bwthyn, Deiniolen, am y tro cyntaf. Diolch arbennig i'r pwyllgor yno am eu paratoadau. Caeau campus, lluniaeth arbennig a thorf ardderchog. Ar noson braf cafwyd noson i'w chofio. Roedd tîm Deiniolen wedi cyrraedd tair ffeinal eleni a cholli bob tro. Mor wahanol ar eu tomen eu hunain a'r dorf yn



cefnogi. Curwyd Bethel i gipio'r tlws a chwalu cyfle am hanes. Os buasai Bethel wedi ennill hwn fuasai'r tro cyntaf i un clwb ennill y tair oedran. Bydd 'lap of

honour' Deiniolen yn aros yn y cof. Edrychwn ymlaen i ddychwelyd i'r Bwthyn y flwyddyn nesaf.

LLWYDDIANT I LEWOD LLANRUG DROS Y FFIN



Genod Llewod Llanrug dan 11, a enillodd dwrnament yn Kinnel Bay.

Da iawn chi, genod dan 12 Llewod Llanrug ar eu hymdrechion a'u perfformiad yn nhwrnament Vicars Cross (Caer). Daeth 16 tîm, y rhan

fwyaf ohonynt o Swydd Caer a Swydd Lancashire a chafodd y genod ganiatâd gan yr FAW i chwarae dros y ffin yn Lloegr. Ymysg y timau yn y

gystadleuaeth yr oedd timau o adran ieuencid Chester City, Bury, Wigan Athletic a Bolton Wanderers.

Chwaraeodd y genod bêl-droed o safon da trwy'r dydd, gan ddangos sgiliau gwych, digon o ddyfalbarhad a gwaith caled fel tîm. Ar eu ffordd trwy'r naw gêm cyn y ffeinal mi wnaethon nhw sgorio 19 o goliau, gan adael dim ond un gôl i mewn trwy'r dydd, a hynny yn y rownd gyn-derynol, pan aethon nhw ar ei hôl hi o 1-0 cyn dod yn ôl i ennill 2-1.

Roedd y ffeinal ei hun yn gêm agos iawn ac roedd angen ymdrech gorfforol galed i drechu Great Sutton 1-0, gyda gôl gan Catrin Gruffudd. Da iawn chi genod – mae'r tymor nesa'n argoeli'n dda iawn

RHEDEG MYNYDD – RASUS LLEOL YN LLWYDDO

Mae'r tymor yn parhau, ac amryw o redwyr lleol wedi profi gwahanol lwyddiannau dros y ddeufis diwethaf. Daeth y gyfres rasmus nos Fawrth i ben gyda dros ddau gant o redwyr yn cymryd rhan ynddi. Ac ymhlith y llwyddiannau lleol roedd Dafydd Williams a Tim Lloyd yn ail a thrydydd dros 40 oed, Arwel Lewis yn ail dros hanner cant oed a Dafydd Thomas yn gyntaf dros 60 oed. Ymhlith y merched, daeth Jenny Heming yn drydedd, Ali Thomas yn ail dros 40 oed, Bridget Ripley a Maggie Oliver yn gyntaf dros 50 a 60 oed. Cryn dipyn o lwyddiant i'r fro o gysidro fod y rhedwyr yn y gyfres wedi teithio o ardal yn ymestyn o Brestatyn yn y dwyrain ac o Feirionnydd yn y de.

Ras yr Wyddfa

Unwaith eto eleni bu'r ras yn llwyddiant mawr i'r rhedwyr, a rhaid canmol y trefnwyr am eu

gwaith trylwyr. Yn anffodus doedd yr awyrgylch yn ardal y Fic ac yn y pentref yn dilyn y ras ddim yn adlewyrchu'n dda iawn ar Lanberis a'r fro. Trueni fod nifer helaeth o lafnau ifanc a rhai hŷn a ddylai wybod yn well, yn defnyddio'r diwrnod fel esgus i or-yfed a chreu trafferthion. Nid dyma'r math o groeso sydd yn arferol i redwyr, eu teuluoedd a'r cefnogwyr ar ddiwrnod y ras. Arwel Lewis oedd yr unig redwr lleol i ennill gwobr yn y ras cleni, gan ddod yn fuddugol yn yr adran dros hanner cant oed.

Ras Elidir

Oherwydd tywydd echrydus ar y diwrnod, bu'n rhaid i'r trefnydd ddewis cwrs mwy diogel, ac osgoi copa greigiog Elidir, a hynny am y trydydd tro yn hanes y ras. Ras gwa felly, ond er fod y tir yn ddirlawn o ddŵr, torrwyd pob record ar wahân i un y dynion dros

hanner cant. Tim Lloyd yn torri'r hen record, yn gorffen yn bedwerydd ond yn gyntaf yn yr adran dros 40 oed. A Dafydd Thomas yn gorffen yn yr ugain cyntaf, gan ennill yr adran dros 60 oed, ac o fewn ychydig eiliadau i ennill yr adran dros 50 hefyd.

Pedol Peris

Daw'r papur o'r Wasg ddeuddydd cyn rhedeg Ras Pedol Peris; un o glasuron rhedeg mynydd Prydain. Mae'n cychwyn yn Llanberis, gan ddringo Elidir Fach ac Elidir fawr, cyn dilyn y grib dros Y Garn ac ymlaen am y Glyder. Yna disgyn i Ben Gorffwysfa, dringo cto i gopa'r Lliwedd, Yr Wyddfa a Moel Cynghorion, cyn disgyn drwy Facsgwm a Chwm Brwynog yn ôl i Lanberis. Eleni, bydd ras fer (!) yn gorffen ym mhen Gorffwysfa. Gan fawr ocbethio y daw llwyddiant lleol.